



CARDIFF
UNIVERSITY

PRIFYSGOL
CAERDYDD

Ysgol Peirianeg
Rhaglenni Gradd
Myfyrwyr Israddedig

www.caerdydd.ac.uk/engineering

Ysgol Peirianeg
Prifysgol Caerdydd

Sgiliau *TROSGLWYDDADWY*

CYFLOGADWYEDD Uchel

Gwaith ymchwil
GORAU'R BYD

Rhagoriaeth
ACADEMAIDD





Amgylchedd **Cefnogol** a Chyfeillgar Labordai addysgu **modern**

Roedd 92% o'n graddedigion
mewn cyflogaeth a/neu astudiaethau
pellach chwe mis ar ôl graddio

Myfyrwyr sy'n Blogio

O awgrymiadau astudio i ble i fwyta, i gymdeithasau, teithiau penwythnos a ble i gael eich llyfrau, mae ein myfyrwyr sy'n blogio yn fyfyrwyr go iawn sy'n siarad am brofiad gwirioneddol myfyriwr yng Nghaerdydd.

Cofiwch ddarllen eu blogiau diweddaraf i gael gwybod rhagor am sut beth yw byw ac astudio yng Nghaerdydd.

www.caerdydd.ac.uk/studentbloggers

Dewch i ddarganfod **Profiad Caerdydd**

Prifysgol flaenllaw . . .

- Byddwch yn rhan o un o brifysgolion Grŵp Russell – un o brifysgolion penigamp y DU.
- Cewch ddewis o blith mwy na 350 o raglenni gradd. Mae gradd Prifysgol Caerdydd yn adnabyddus ac yn uchel ei pharch ledled y byd ac mae nifer sylweddol o'n graddau wedi'u hachredu gan y proffesiynau a chyrrff allanol eraill.
- Byddwch yn cael budd o addysgu eithriadol mewn amgylchedd a arweinir gan ymchwil. Mae Caerdydd ymhlith pum prifysgol orau'r DU am ansawdd ei hymchwil.
- Mae ein staff yn cynnwys enillydd Gwobr Nobel a nifer o Gymdeithion y Gymdeithas Frenhinol a sefydliadau mawreddog eraill.

mewn dinas eithriadol . . .

- Byddwch yn byw mewn dinas glos, gyfeillgar a diogel gyda'ch holl anghenion astudio, byw a hamddena o fewn pellter cerdded.
- Bydd eich arian yn mynd ymhellach yng Nghaerdydd gydag atyniadau prifddinas am brisiau dinasoedd llai – Caerdydd yw'r ail ddinas brifysgol fwyaf fforddiadwy yn y DU.¹

gyda myfyrwyr galluog a brwdfrydig . . .

- Byddwch mewn un o'r prifysgolion mwyaf poblogaidd, lle mae galw mawr am leoedd.
- Byddwch yn astudio mewn amgylchedd gyda myfyrwyr galluog a llawn cymhelliant sydd wedi cael graddau uchel yn eu harholiadau Safon Uwch neu gyfwerth.
- Byddwch mewn prifysgol ryngwladol gyda myfyrwyr â rhagolygon gyrfaol rhagorol o fwy na 100 o wledydd.

sydd â rhagolygon gyrfa rhagorol.

- Gallwch deimlo'n hyderus ynghylch eich gobeithion ar gyfer y dyfodol – roedd 96% o'n myfyrwyr mewn cyflogaeth neu wedi mynd i wneud astudiaethau pellach o fewn chwe mis i gwblhau eu hastudiaethau.²
- Bydd galw mawr amdanoch chi – mae Caerdydd ymhlith y 25 prifysgol orau a gaiff eu targedu gan gyflogwyr sy'n chwilio am radddedigion o'r radd flaenaf.³

Nodiadau

- Ymchwil gan Natwest 2018
- Arolwg HESA o Gyrcfannau Ymadawyr Addysg Uwch 2016/17
- High Fliers Research Marchnad Gradddedigion 2017



CysylltuCaerdydd

www.caerdydd.ac.uk



@cardiffuniug



facebook.com/Cardiffuniug



instagram.com/cardiffuni



youtube.com/user/cardiffuni

Cysylltu â ni

I fyfyrwyr o'r DU neu'r UE:

Ffôn: 029 2087 4455

E-bost: enquiry@caerdydd.ac.uk

I fyfyrwyr o weddill y byd:

Ffôn: +44 (0)29 2087 4432

E-bost: international@caerdydd.ac.uk

Croeso

Rydych ar gyfnod heriol a chyffrous o'ch bywyd, pan ydych chi'n gorfod dewis beth i'w astudio yn y brifysgol a pha brifysgol fydd yn paru orau â'ch dyheadau.



Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys manylion y rhaglenni gradd mewn peirianeg a gynigir gan yr Ysgol Peirianeg. Mae ein cyrsiau gradd yn ymdrin â saith maes gwahanol o fewn peirianeg, ac, o fewn pob rhaglen, ceir opsiynau pellach MEng neu BEng, graddau amser llawn neu raddau rhyngosod. Mae llawer o'n myfyrwyr yn dewis Blwyddyn mewn Diwydiant, a gaiff ei ganmol yn fawr gan gyflogwyr, ac eraill yn dewis gwella eu sgiliau ieithyddol gydag un o'n rhaglenni Blwyddyn yn Ewrop. Rydym hefyd yn cynnig rhaglen radd ryngwladol MEng, sy'n rhoi'r cyfle i'n myfyrwyr astudio gydag un o'n lliaws o brifysgolion partner y tu allan i Ewrop. Mae'r opsiynau hyn wedi'u cynllunio i roi rhaglen radd i chi a fydd yn diwallu eich anghenion, nawr ac yn y dyfodol. Mae pob un o'n rhaglenni gradd wedi'u hachredu gan y sefydliadau proffesiynol perthnasol, sy'n hanfodol i fyfyrwyr sydd eisiau bod yn Beirianwyr Siartredig.

Mae gennym gysylltiadau cryf iawn gyda'r diwydiant, felly mae'n bosibl y byddwch yn gweithio gyda chwmnïau i ddatrys problemau cyfredol go iawn. Mae gennym rai o'r cyfleusterau addysgu ac ymchwilio gorau yn y DU hefyd, yn ogystal â staff academiaidd sy'n enwog yn rhyngwladol am eu gwaith ymchwil.

Mae'r Ysgol Peirianeg yn amgylchedd cefnogol a chyfeillgar i astudio ynddo, ac rydym yn darparu'r cyfleusterau a'r cymorth academiaidd gorau posibl i'n myfyrwyr. Rydym yn gwerthfawrogi ein myfyrwyr ac mae eu lles yn bwysig iawn i ni. Fel rhan o'n fframwaith cymorth cyffredinol, dyrennir tiwtor personol i bob myfyrwr, ac ef neu hi fydd ei bwynt cyswllt cyntaf drwy gydol ei amser yma. Mae'r Ysgol yn rhwymedig i gyfle cyfartal a chynhwysiant ac amrywiaeth.

Nod yr Ysgol yw darparu amgylchedd cyfeillgar ac ysgogol ar eich cyfer, sy'n caniatáu i chi wireddu eich potensial a mwynhau eich profiad o brifysgol. Edrychaf ymlaen at eich croesawu i'r Ysgol, os byddwch yn dewis ymuno â ni, a dymunaf bob llwyddiant i chi yn eich astudiaethau yn y dyfodol.



Yr Athro Sam Evans
Yr Ysgol Peirianeg

Cynnwys

Caerdydd: Prifddinas braf	4
Caerdydd: Prifysgol flaenllaw	6
Byw yng Nghaerdydd	8
Ysgol Peirianeg	10
Barn ein Myfyrwyr	12
Cysylltiadau â Diwydiant	13
Rhaglen Radd a Chymwysterau Mynediad	14
Y Flwyddyn Sylfaen	16
Y Rhaglenni Sylfaen Rhyngwladol	17
Peirianeg Bensaernïol	18
Peirianeg Sifil	20
Peirianeg Sifil ac Amgylcheddol	22
Peirianeg Drydanol ac Electronig	24
Peirianeg Integredig	26
Peirianeg Fecanyddol	28
Peirianeg Feddygol	30
Cwestiynau Cyffredin	32
Nodiadau i Fyfyrwyr Rhyngwladol	34
Derbyn Myfyrwyr	36

Gwybodaeth Gyfreithiol Bwysig

Mae cynnwys y llyfryn hwn yn ymwneud â chylchred dderbyn Mynediad 2020, ac roedd yn gywir pan aeth i'r wasg ym mis Mawrth 2019. Fodd bynnag, mae cyfnod hir rhwng argraffu'r llyfryn hwn a phryd caiff ceisiadau eu cyflwyno a'u prosesu gennym. Felly, ewch i'n gwefan [www.caerdydd.ac.uk] cyn cyflwyno cais rhag ofn bod unrhyw newidiadau i'r cwrs sydd o ddiddordeb i chi neu i gyfleusterau a gwasanaethau eraill a ddisgrifir yma. Pan fydd gwahaniaeth rhwng cynnwys y llawlyfr hwn a'n gwefan, cynnwys y wefan fydd yn bwysicach, a hwn sy'n nodi sut rydym yn bwriadu darparu ein gwasanaethau ar eich cyfer.

Bydd unrhyw le a gynigir i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd yn unol â thelerau ac amodau, a gellir gweld y rhain ar ein gwefan [www.caerdydd.ac.uk/offerters]. Fe'ch cynghorir i'w darllen cyn gwneud cais. Mae'r telerau a'r amodau yn nodi, er enghraifft, pryd gallwn wneud newidiadau i'ch cwrs dewisol neu i'r rheoliadau i fyfyrwyr. Felly, mae'n bwysig eich bod yn eu darllen ac yn eu deall.

Os na allwch gael gafael ar wybodaeth ar-lein, cysylltwch â ni:

E-bost: enquiry@caerdydd.ac.uk

Ffôn: 029 2087 4455

Eich gradd: Mae myfyrwyr sy'n cael eu derbyn i Brifysgol Caerdydd yn astudio am radd Prifysgol Caerdydd.

Caerdydd: Prifddinas braf



Saif Stadiwm y Principality (Mileniwm) yng nghanol y ddinas, ac mae'n gartref i nifer o ddigwyddiadau chwaraeon a chyngherddau drwy gydol y flwyddyn

Mae Caerdydd yn ddinas ffyniannus a deniadol a gydnabyddir yn eang fel lle gwyd i fyw ac astudio ynddo. Mae'n cyfuno holl fanteision lleoliad clos, cyfeillgar a rhad â chyfleusterau diwylliannol a hamdden prifddinas fodern.

Mae Caerdydd yn cynnig popeth o gyffro'r ddinas i heddwch a llonyddwch yr arfordir a chefn gwlad cyfagos. Gyda'i chymeriad unigryw, ei hansawdd bywyd da, a'i henw da cynyddol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, mae'n cynnal llawer o ddigwyddiadau diwylliannol a chwaraeon proffil uchel, gan gynnwys rygbi, pêl-droed, criced a chwaraeon modur rhyngwladol.

O ran adloniant, mae gan Gaerdydd ddigonedd i ddiwallu anghenion myfyriwr. Ceir lliaws o gaffis, tafarndai a chlybiau nos yma. Mae'r ddinas yn gartref i gwmni byd-enwog Opera Cenedlaethol Cymru, mae'n brolio lleoliadau cyngerdd mawreddog fel Canolfan Mileniwm Cymru, Neuadd Dewi Sant ac Arena Motorpoint, yn ogystal â stadiwm eiconig y Principality, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, nifer o theatrau a chastell hanesyddol Caerdydd.

Yng Nghaerdydd hefyd y cynhyrchir rhaglenni teledu poblogaidd fel *Doctor Who*, *Sherlock*, *Torchwood* a *Casualty*.

Mae'r ddinas yn un o ganolfannau siopa gorau'r Deyrnas Unedig, gyda chanolfan manwerthu Dewi Sant yn sefyll ochr yn ochr â strydoedd siopa i gerddwyr yn unig, marchnadoedd dan do ac awyr agored, a rhwydwaith difyr o arcedau to gwydr Fictoriaidd ac Edwardaidd.

Mae gan Gaerdydd hefyd fwy o fannau gwyrdd trefol nag unrhyw ddinas arall yn y Deyrnas Unedig, ac mae'r cefn gwlad, yr arfordir a'r mynyddoedd o fewn cyrraedd hawdd.

Mae bywiog, hardd, hyderus, cosmopolitaidd ac uchelgeisiol yn eiriau a ddefnyddir yn fynych i ddisgrifio Caerdydd heddiw. Gyda'i gilydd, mae'r ddinas a'r Brifysgol yn rhoi 'Profiad Caerdydd' i fyfyrwyr, sef ffordd o fyw y bydd ein myfyrwyr yn ei chofio ymhell ar ôl graddio.

Peidiwch â chymryd ein gair ni yn unig . . .

"Mae Caerdydd yn brifddinas ffyniannus a deniadol, sy'n cael ei chydabod yn eang fel lle neilltuol o dda i fyw."

Complete University Guide 2019



Mae'r cefn gwlad a'r arfordir cyfagos yn cynnig cyfleoedd gwych ar gyfer gweithgareddau awyr agored



Caerdydd yw un o gyrchfannau siopa gorau'r DU

Dewch i weld drosioch eich hun . . .

Mae Caerdydd yn elwa ar gysylltiadau ffordd a rheilffordd rhagorol â threfi a dinasoedd mawr eraill Prydain. Er enghraifft, gellir cyrraedd Llundain mewn dwy awr ar drên, ac mae'r M4 yn cysylltu gorllewin a de Lloegr, yn ogystal â gorllewin Cymru. Mae'r un mor gyfleus i deithio i ganolbarth Lloegr ac i'r gogledd. Dim ond dwy awr yw'r daith ar y ffordd o Birmingham, er enghraifft. Mae'r prif orsafoedd bysiau a threnau mewn mannau canolog, ac mae Caerdydd hefyd yn elwa ar gael maes awyr rhyngwladol.



Mae Canolfan Mileniwm Cymru yn lleoliad penigamp ar gyfer y celfyddydau

Caerdydd: Prifysgol flaenllaw





Mae gan Brifysgol Caerdydd enw da yn rhyngwladol am ragoriaeth mewn addysgu a gwaith ymchwil. Mae wedi'i hadeiladu ar hanes o wasanaeth a chyrhaeddiad er 1883, a chaiff hynny ei gydnabod gan y ffaith ein bod yn aelod o Grŵp Russell, sy'n ymaelodi'r prifysgolion mwyaf blaenllaw a arweinir gan waith ymchwil.

Gyda champysau deniadol a bach, llety myfyrwyr rhagorol, ac Undeb Myfyrwyr hynod boblogaidd, oll o fewn pellter cerdded hawdd i'w gilydd mewn dinas ffyniannus, nid yw'n syndod fod Caerdydd yn ddewis cyntaf am brifysgol i lawer.

Rydyn ni'n derbyn tua 5,000 o israddedigion newydd bob blwyddyn, y mwyafrif ohonyn nhw'n gadael ysgol neu goleg i ddod yma, ac mae ganddyn nhw raddau uchel Safon Uwch neu gyfwerth. Er bod cystadleuaeth gref am le yma, mae Caerdydd yn brifysgol gynhwysol sydd ag enw da am ehangu cyfranogiad a mynediad teg, ac rydyn ni'n croesawu ceisiadau, waeth beth yw'r cefndir, gan bawb sydd â'r potensial i lwyddo ym Mhrifysgol Caerdydd.

Saif Campws Parc Cathays y Brifysgol ymysg adeiladau carreg trawiadol Portland, parciau a rhodfeydd coediog eang sy'n ffurfio canolfan ddinesig ddeniadol Caerdydd. Yma ceir y mwyafrif o'r ysgolion academiaidd – dim ond ychydig o funudau ar droed o ganol y ddinas. Mae'r tair

ysgol academiaidd sy'n cynnig cyrsiau gofal iechyd (ac eithrio Optometreg a Fferylliaeth) ar Gampws Parc y Mynydd Bychan, tua milltir i ffwrdd, sydd hefyd yn gartref i Ysbyty Athrofaol Cymru.

Er bod Caerdydd yn dyddio'n ôl i 1883, mae'n canolbwyntio ar yr 21ain ganrif, ac mae ganddi adeiladau a chyfleusterau modern. Mae'r Brifysgol wedi buddsoddi'n sylweddol yn ei hystâd dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n parhau i wneud hynny heddiw. Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion academiaidd wedi elwa ar gael eu hailwampio'n sylweddol, gyda labordai, theatrau darlithio, llyfrgelloedd a chyfleusterau cyfrifiadura newydd, llawn adnoddau. Mae cyfleoedd rhyngwladol ar gael drwy ein Canolfan Cyfleoedd Byd Eang. Mae'r rhain yn cynnwys lleoliadau astudio, gweithio a gwirfoddoli mewn 27 o wledydd yr Undeb Ewropeaidd yn ogystal â chyfleoedd cyfnewid rhyngwladol. Mae pob myfyrwr hefyd yn cael cyfle i astudio iaith, yn ogystal â'i radd, drwy raglen leithoedd i Bawb y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn ystyried ei chyfrifoldebau amgylcheddol a'i chyfrifoldebau diogelwch yn ddifrifol iawn. Mae ganddi bolisiau cynhwysfawr ar waith, sy'n gwneud arbedion mawr o ran defnyddio ynni, ac, i gefnogi diogelwch holl aelodau cymuned y brifysgol a'u heiddo, mae darpariaeth ddiogelwch 24 awr ledled y campws.

Yn ôl yr arweinyfrau. . .

"Mae Prifysgol Caerdydd yn uchel ei pharch ar raddfa leol a byd-eang."

The Telegraph 2018

"Mae Prifysgol Caerdydd yn brifysgol hynod boblogaidd yn y DU... mae ganddi enw da am ymchwil o'r radd flaenaf ac mae'n rhoi profiad ardderchog i'w myfyrwyr."

Telegraph University Guide 2018

"Mae'r costau byw yn gymharol isel o'u cymharu â llawer o ddinasoedd eraill y DU, ac mae cysylltiadau cludiant cyhoeddus rhagorol."

Telegraph University Guide 2018



Byw yng Nghaerdydd





Fel prifddinas sy'n datblygu'n gyflym, mae Caerdydd yn lle gwych i fod yn fyfyrwr. Mae'n ddigon mawr i gynnig amrywiaeth gyffrous o weithgareddau ac adloniant, ond yn ddigon bach i chi deimlo'n gyfforddus.

Llety

Mae Prifysgol Caerdydd yn sicrhau llety Prifysgol o ansawdd a gwerth da, ac amrywiaeth o breswylfeydd sy'n addas ar gyfer dewisiadau a chyllidebau unigol.

Caiff pob myfyrwr israddedig sy'n derbyn ei gynnig o le gan Gaerdydd, ar sail gadarn, warant o ystafell sengl mewn un o breswylfeydd y Brifysgol yn ystod ei flwyddyn astudio gyntaf.

Ewch i'r gwefan i gael manylion llawn ein gwarant llety a'r dyddiadau cau cysylltiedig: www.caerdydd.ac.uk/preswylfeydd

Mae'r Brifysgol yn buddsoddi'n barhaus yn ei phreswylfeydd i fyfyrwyr, a chaiff barnau'r myfyrwyr eu hystyried yn ystod y cam dylunio. Yn anarferol am brifysgol ddinesig, mae'r rhan fwyaf o'n preswylfeydd o fewn pellter cerdded hawdd i'r theatrau darlithio, y llyfrgelloedd, y labordai, Undeb y Myfyrwyr a chanol y ddinas.

Mae 15 o breswylfeydd gwahanol, sy'n darparu mwy na 5,500 o ystafelloedd gwely astudio, a gall myfyrwyr wneud

cais am y preswylfeydd sy'n gweddu orau i'w dewisiadau, eu diddordebau a'u cyllidebau. Mae gan oddeutu 70% ohonynt gyfleusterau cawod a thoiled en-suite ac mae gan bob neuadd breswyl bwyntiau cysylltu â'r rhwydwaith cyfrifiadurol a mynediad at Wi-Fi.

Mae'r ffioedd yn dibynnu ar y cyfleusterau sydd wedi eu cynnwys, ac a yw'r llety'n un ag arlwyfaeth, arlwyfaeth rannol neu'n llety hunanarlwy, ond mae'r prisiau'n cymharu'n ffafrl iawn â phrisiau prifysgolion eraill y Deyrnas Unedig. Yn ogystal â rheoli eiddo'r Brifysgol, mae'r Swyddfa Preswylfeydd yn cynnal cysylltiadau agos â'r sector preifat ac yn rhoi cymorth i fyfyrwyr sy'n dymuno rhentu neu rannu tai neu fflatiau.

Bywyd Myfyrwyr

Undeb y Myfyrwyr

Undeb Myfyrwyr Caerdydd yw un o'r undebau gorau, y mwyaf ei faint a'r mwyaf gweithgar ym Mhrydain. Mae buddsoddiad gwerth miliynau o bunnoedd wedi'i wneud yng nghyfleusterau'r Undeb yn ystod y blynyddoedd diwethaf, sydd wedi cynnwys lleoliad newydd o'r enw Y Plas, sy'n troi'n

glwb nos gyda'r nos. Mae'n cynnal cerddoriaeth fyw, nosweithiau clwb, comedi llwyfan, sioeau ffasiwn a seremonïau gwobrwy, felly mae digonedd i'ch diddanu o'ch diwrnod cyntaf i'ch diwrnod diwethaf.

Mae'r cyfleusterau eraill yn cynnwys neuadd fwyd, banc, siop argraffu, salon trin gwallt a siop lyfrau. Mae'r Lolfa yn cynnig cyfleusterau TG a Skype, ystafelloedd cyfarfod a mannau "ymlacio", yn ogystal â byrddau snwcer ac ystafell weddi aml-ffydd. Mae gan yr Undeb hefyd ei asiantaeth gosod eiddo ei hun a Chanolfan Cynghori a Chynrychioli. Yn ogystal, mae'n gartref i CU TV ac Xpress Radio (gorsafodd teledu a radio'r myfyrwyr eu hunain) a mwy na 200 o gymdeithasau a chlybiau diwylliannol, gwleidyddol, crefyddol, cymdeithasol a chwaraeon.

Siop Swyddi

Y Siop Swyddi yw gwasanaeth cyflogi myfyrwyr yr Undeb ei hun, ac mae'n darparu swyddi achlysurol, clerigol ac arlwy o gwmpas y Brifysgol i gannoedd o fyfyrwyr.



Yn ôl yr arweinyfrau...

"Mae gan Gaerdydd un o'r undebau myfyrwyr mwyaf, gorau a mwyaf gweithredol yn y DU, gyda chyfleusterau o ansawdd uchel sy'n cynnwys Y Plas, clwb nos sydd â lle i 2,150 o bobl, a'r Neuadd Fawr, sy'n lleoliad poblogaidd i gyngherddau".

Complete University Guide 2019

Caerdydd yw "yr ail ddinas brifysgol fwyaf fforddiadwy yn y DU".

Mynegai NatWest am Gostau Byw i Fyfrwyr 2018

Ysgol Peirianeg



Mae'r Ysgol Peirianeg yn cyfuno rhagoriaeth mewn addysgu a gwaith ymchwil gydag ymrwymiad i gefnogi'r diwydiant, y gymdeithas a'r economi. Byddwch yn darganfod y bydd ein proffil gwaith ymchwil a gydnabyddir yn rhyngwladol a'n cysylltiadau cryf â'r diwydiant yn gwella eich profiad dysgu fel myfyriwr israddedig ac yn sicrhau eich bod yn cael y paratoad gorau posibl ar gyfer gyrfa fel peiriannydd.

Achrediad Ansawdd a Phroffesiynol

Mae'r Ysgol yn ysgol beirianeg gyffredinol gydag amrywiaeth eang o gyrsiau gradd cwbl achrededig sy'n rhoi llawer o opsiynau i chi ddewis ohonynt. Mae gennych chi'r cyfle i ddewis blwyddyn yn gweithio yn y diwydiant fel rhan o'ch gradd, neu efallai dreulio semester dramor mewn un o'n lliaws o brifysgolion partner sy'n siarad Saesneg, yn ogystal â'r dewis o BEng tair blynedd o hyd neu'r cwrs gradd MEng pedair blynedd o hyd sy'n canolbwyntio mwy ar brosiectau. Mae'r Ysgol yn cael ei chydabod yn rhyngwladol am ei gwaith ymchwil a'i chysylltiadau cryf â'r diwydiant, ac mae hyn yn gwella'r profiad dysgu i'n myfyrwyr. Caerdydd yw un o ysgolion peirianeg prin iawn y wlad a wahoddwyd i fod yn aelod o Sefydliad Sgiliau Electronig y DU a'r Power Academy.

Yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diwethaf, a gynhaliwyd gan gynghorau ariannu'r DU, daeth gwaith ymchwil yr Ysgol mewn Peirianeg Sifil yn gyntaf yn y DU am ei ansawdd, a daeth gwaith ymchwil mewn Peirianeg Gyffredinol (sy'n cynnwys disgyblaethau eraill mewn peirianeg) yn seithfed. Yn gyffredinol, credwyd bod 97% o'r gwaith ymchwil a gyflwynwyd gennym o safon ragorol yn

rhyngwladol neu'n flaengar yn fyd-eang. Barnwyd hefyd mai ein gwaith ymchwil ni yn y categorïau Peirianeg Sifil a Pheirianeg Gyffredinol oedd y gorau yn y DU o ran ei effaith.

Mae pob un o'n rhaglenni gradd wedi'u hachredu gan y sefydliadau peirianeg proffesiynol perthnasol, fel Sefydliad y Peirianwyr Sifil, y Sefydliad Peirianeg a Thechnoleg, a Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol.

Cyfleusterau

Ategir ein safon uchel o addysgu ac ymchwilio gan gyfleusterau modern ardderchog, ac rydym yn buddsoddi'n barhaus yn y rhain. Mae'r Ysgol wedi'i lleoli yn y gyfadrann fodern a adnabyddir fel Adeiladau'r Frenhines, canlyniad £30 miliwn o fuddsoddiad. Mae'r safle wedi gweld gwelliannau pellach yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda'r llyfrgell yn cael ei hailwampio'n llwyr ac yn ennill gwobr genedlaethol am ddyluniad arloesol. Yn ogystal, mae'r Ysgol wedi agor gofod dysgu hyblyg mawr o'r enw y Fforwm. Mae'r Fforwm yng nghanol yr Ysgol, drws nesaf i'r Swyddfa Addysgu, ac mae ganddo le i hyd at 120 o fyfyrwyr a staff gymryd rhan mewn dysgu grŵp neu astudio unigol, neu i gael coffi a sgwrs.

Mae'r Ysgol wedi darparu casgliad o argraffwyr 3D yn ddiweddar, sydd i'w defnyddio gan fyfyrwyr a staff yn y Fforwm ar unrhyw adeg.

Mae'r gyfadrann yn agos i ysgolion academiaidd eraill, Undeb y Myfyrwyr a chanol y ddinas. Mae ganddi gyfleusterau annibynnol ardderchog, gan gynnwys labordai addysgu ac ymchwil mawr, llawn cyfarpar, a llyfrgell sy'n cynnwys amrywiaeth eang o lyfrau a chyfnodolion, yr adnoddau cyfrifiadurol ac electronig diweddaraf, ynghyd â nifer o ardaloedd astudio tawel.

Rydym yn cynnig cyfleusterau cyfrifiadura helaeth i'n myfyrwyr, a gellir defnyddio'r rhain i gael gafael ar ddeunydd cyfeirio penodol a chael mynediad i rwydwaith y Brifysgol. Rydym hefyd yn darparu ar gyfer unrhyw anghenion cyfrifiadurol arbenigol sydd eu hangen i wneud eich astudiaethau peirianeg, fel pecynnau meddalwedd penodol.

Rydym yn cydnabod bod agweddau cymdeithasol ar fywyd prifysgol yn bwysig, ac mae gan gyfadrann Adeiladau'r Frenhines ei chyfleusterau ei hun lle gallwch ymlacio a chymdeithasu. Mae ganddi ffreutur mawr sy'n darparu brecwast, byrbrydau, ciniawau a phrydau nos am brisiau rhesymol iawn.



Myfyriwr yn paratoi i brofi am heneiddio uwch-fioled



Myfyrwyr yn Llyfrgell Trevithick

Darlithoedd ac Asesiadau

Goruchwylir gweithgareddau addysgu'r Ysgol gan Gyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu. Mae'r rhain wedi'u rhannu'n dri phrif grŵp disgyblaeth, a phob un yn cael ei arwain gan Gyfarwyddwr Cwrs sy'n gyfrifol am reoli'r rhaglenni gradd sydd wedi'u cynnwys ym mhob grŵp.

Waeth pa raglen radd y byddwch chi'n ei dewis, byddwch yn dysgu am agweddau sylfaenol peirianeg drwy gyfuniad o ddarlithoedd a thiwtorialau, ac ategir at hyn drwy ddysgu am agweddau ymarferol peirianeg, a ddysgir trwy waith labordy a phrosiectau. Gallwch gael hyd at 18 awr o ddarlithoedd, dosbarthiadau labordy a thiwtorialau wedi'u hamserlennu bob wythnos ar gyfartaledd, a bydd disgwyl i chi ychwanegu at hyn gyda'ch astudio preifat eich hun.

Mae ein haddysgu wedi'i drefnu mewn modylau, a byddwch yn cymryd 120 o gredydau'r flwyddyn, a fydd wedi'u rhannu'n gytbwys rhwng y ddau semester. Mae pob semester yn cynnwys 11 wythnos o addysgu, un wythnos adolygu a chynnod arholiadau. Gellir cael help uniongyrchol gydag agweddau penodol ar fodiwl gan y darlithwyr perthnasol; bydd staff yn falch o egluro unrhyw ddeunydd neu ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Defnyddir amrywiaeth o wahanol ddulliau i'ch asesu, gan gynnwys arholiadau ysgrifenedig ffurfiol, astudiaethau achos, aseiniadau a gwaith prosiect.

Yr Amgylchedd Dysgu

Mae'r Ysgol Peirianeg yn hyrwyddo amgylchedd dysgu cyfeillgar a chefnogol, gyda chymuned amrywiol o staff a myfyrwyr.

Rydym yn falch o ddweud ein bod wedi ennill gwobr Athena Swan am ein hymroddiad tuag at ddarparu diwylliant cefnogol ar gyfer menywod mewn gwyddoniaeth, ac mae gennym ganran uwch na'r cyffredin o fyfyrwyr israddedig, ymchwilwyr a staff benywaidd.

Mae gan yr Ysgol a'r Brifysgol ddarpariaethau pwrpasol i fyfyrwyr sydd angen cymorth academiaidd neu bersonol. Mae'r Ysgol yn darparu cymhorthfa fathemateg arbennig ar gyfer myfyrwyr sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u sgiliau mathemateg. Mae gennym bolisi cwricwlwm hygyrch hefyd sy'n sicrhau bod addysgu a dysgu ar gael i bob myfyriwr, gan gynnwys y rhai hynny ag anableddau.

Cymorth gyda'ch Astudiaethau

Byddwch yn cael eich cyflwyno i amrywiaeth eang o brofiadau newydd a chyffrous yn ystod eich blwyddyn gyntaf o fywyd academiaidd. Pan fyddwch yn dechrau astudio yng Nghaerdydd, byddwch yn cael tiwtor personol wedi'i benodi ar eich cyfer i'ch helpu drwy'r cyfnod pontio hwn yn eich bywyd. Bydd y tiwtor hwn yn aelod o'r staff academiaidd sy'n gysylltiedig â'ch rhaglen radd. Bydd eich tiwtor yno i'ch cynghori ar faterion academiaidd, materion nad ydynt yn academiaidd a materion personol mewn modd cyfrinachol ac anffurfiol, pryd bynnag y bydd angen ychydig o arweiniad arnoch. Ein nod yw eich helpu chi i oresgyn unrhyw broblem, fach neu fawr, mor ddiffwdan a chyflym â phosibl. Os oes angen cymorth mwy arbenigol, cyfeirir problemau at Wasanaethau Cymorth Myfyrwyr y Brifysgol, lle mae cwnselaerydd hyfforddedig wrth law i gynnig arweiniad ar amrywiaeth o faterion.



Yr Awtoclaf



Yr Ysgol Peirianeg

Barn ein Myfyrwyr...

Gwnaethom ofyn i'n myfyrwyr beth oedd eu barn nhw ar fod yn fyfyrwr Peirianeg ym Mhrifysgol Caerdydd. O'n cyfleusterau modern i nosweithiau allan yn ninas brysur Caerdydd, dyma beth oedd ganddyn nhw i'w ddweud...

Byw yng Nghaerdydd...

"Rwy'n dwli ar Gaerdydd. Mae'n hollol ffantastig. Rwy'n hoffi'r ffaith nad yw hi'n brifysgol campws, felly nid ydych wedi'ch ynysu. Mae gan Brifysgol Caerdydd bopeth y bydden i'n disgwyl i brifysgol ei chael."

Hannah Little, Peirianeg Sifil

"Mae pawb mor gyfeillgar! Mae hefyd yn ddinas ryngwladol iawn. Os ydw i'n dyheu am fwyd o fy nghartref yn yr Aifft, nid oes angen i mi gerdded yn bell cyn dod o hyd i'r holl gynhwysion sydd eu hangen arnaf."

Shrouk El-Attar, Peirianeg Drydanol ac Electronig

Astudio Peirianeg...

"Mae'r darlithwyr yn frwdfrydig tu hwnt ac yn gwybod am beth maen nhw'n siarad, ac mae'r staff gweinyddol yn gymwynasgar iawn."

Ben Tapley, Peirianeg Bensaernïol

"Mae grwpiau bach o fyfyrwyr yn cwrdd â thiworiaid personol yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn gyntaf, sy'n system gymorth academaidd a chymdeithasol dda. Ni fydden i'n dewis unrhyw gwrs arall, ac rwy'n dwli ar Gaerdydd!"

Nadeem Goussouss, Peirianeg Drydanol ac Electronig

Cyfleusterau...

"Gwnaeth y cyfleusterau argraff fawr arna i. Mae'r labordai'n drawiadol iawn ac rwyf wrth fy modd yn gweithio ynddyn nhw."

Zuzanna Stone, Peirianeg Sifil

"Mae'n adeilad trawiadol, o ran y cyfleusterau sydd ynddi yn ogystal â'i phensaernïaeth. Rwyf wrth fy modd yn ymweld â'r llyfrgell ac rwy'n ei defnyddio'n gyson. Mae'n ddefnyddiol iawn ac ar agor ar nosweithiau a phenwythnosau. Mae staff y llyfrgell yn gymwynasgar ac yn wybodus dros ben. Mae'n lle da iawn i ddod i astudio."

Carlos Fernandez, Peirianeg Fecanyddol

Bywyd Cymdeithasol...

"Rwyf yn y Gymdeithas Beirianeg, rwy'n chwarae sboncen gyda myfyrwyr Peirianeg eraill, ac fe fynychais ddawns yr Ysgol Peirianeg, a oedd yn wych. Mae llawer o bethau ar y gweill sy'n hwyl ond sydd hefyd yn gallu gwella'ch CV."

Cordelia Overland, Peirianeg Sifil

"Mae'r bywyd nos yn arbennig, rwyf wrth fy modd. Mae nosweithiau allan y myfyrwyr yn hwyl, dim ond llawer o fyfyrwyr allan yn cael amser da. Mae digonedd o ddewis. Gallech fynd i wahanol glwb bob noson o'r wythnos a chael noson dda."

Joshua Perkins, Peirianeg Feddygol

Rhagolygon Gwaith...

"Rwy'n gwneud y cynllun Blwyddyn mewn Diwydiant, sy'n ffordd ardderchog o ennill arian, cael sgiliau ymarferol, rhoi damcaniaethau ar waith a chael swydd ar gyfer diwedd y radd."

Anna Warwick, Peirianeg Fecanyddol

"Mae llawer o ffeiriau gyrfaedd – rwy'n mwynhau'r rhain oherwydd mae llawer o bobl o'r diwydiant yno. Mae llawer o gymorth hefyd gydag ysgrifennu CVs a ffurflenni cais. Rwy'n teimlo'n hyderus ynghylch fy rhagolygon gwaith."

Luis De La Parte Autran, Peirianeg Fecanyddol



Cysylltiadau â Diwydiant

Caiff pob un o'n cyrsiau ei lywio gan gydweithrediad y diwydiant, ac maen nhw wedi'u cynllunio i roi'r offer angenrheidiol i raddedigion yr Ysgol Peirianeg i ddod o hyd i gyflogaeth ddiwydiannol a llwyddo ynddi.



Mae ein cysylltiadau â busnesau a'r diwydiant yn rhoi cymorth i fentrau myfyrwyr a darlithwyr sy'n ymweld, a chyfleoedd i'r myfyrwyr ddatblygu'n bersonol ac yn broffesiynol. Mae cysylltiadau agos â chyflogwyr lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn arwain at gyflogaeth yn aml neu leoliadau diwydiannol i lawer o fyfyrwyr israddedig. Mae'r cysylltiadau hyn yn mynd ati i gefnogi mentrau a arweinir gan fyfyrwyr hefyd, fel Peirianwyr heb Ffiniau, a'r Gymdeithas Beirianeg.

Cefnogir modiwlau prosiect ysgol gyfan gan gydweithio diwydiannol â nifer o gwmnïau, gan gynnwys Flintec, Ove Arup and Partners International, Atkins, GL Garrard Hassan, BAE Systems, EADS, a Babcock Marine.

Cysylltiadau Diwydiannol â Chyrsiau Israddedig

Mae siaradwyr o'r diwydiant yn cyflwyno darlithoedd rheolaidd ar eu meysydd arbenigol perthnasol. Mae'r rhain yn gyfleoedd gwyb i fyfyrwyr glywed arbenigwyr yn siarad am bynciau sy'n berthnasol i'w graddau, ac mae hefyd yn rhoi cipolwg iddynt o weithio yn y diwydiant. Mae'r cynllun Blwyddyn mewn

Diwydiant yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr ennill ychydig o arian, i roi eu sgiliau peirianeg ar waith, ac i gynyddu eu cyflogadwyedd.

Hyd os na fyddwch yn dewis cymryd lleoliad diwydiannol, byddwch yn parhau i elwa ar fewnbwn diwydiannol mewn modiwlau ar draws pob un o'r disgyblaethau peirianeg.

Ym meysydd rheoli gwastraff, ailgylchu ac ynni, ceir llawer o fewnbwn gan gontractau ymchwil gyda chwmnïau fel Rolls-Royce, EoN, Tata a Stork Technical Services. Ceir mewnbn hefyd gan gwmnïau fel Tidal Energy Ltd (TEL), Marine Current Turbines (rhan o Siemens), Bosch, ANSYS a Mabey.


Ym maes Peirianeg Feddygol, cefnogir modiwlau drwy gydweithio â Biomet, Simpleware ac Arthritis Research UK. Mae llawer o gysylltiadau'n gysylltiedig â darparwyr gofal iechyd fel Canolfan Orthopedig Caerdydd a'r Fro, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a'r Adran Ffiseg Feddygol. Mae cysylltiadau wedi'u meithrin ag adrannau eraill o'r Brifysgol, fel Biowyddorau, Seicoleg, yr Ysgol Fusnes a Deintyddiaeth, yn ogystal â chlinigwyr ym meysydd Orthopedig a Radiograffeg, er mwyn sicrhau bod y deunyddiau dysgu mor ddiweddar â phosibl.

Cynigir mewnbn diwydiannol ym meysydd Peirianeg Drydanol ac Electronig gan RWE, npower, Western Power Distribution, Cogent Power, Thyssen-Krupp Electrical Steel, EADS, BT, BAE Systems, EADS, Babcock Marine, Agilent UK a Rhode & Schwarz.


Ym maes peirianeg amgylcheddol a dŵr, daw mewnbn diwydiannol uniongyrchol hefyd gan gwmnïau sy'n cynnwys Newport Galvanisers (is-gwmni o Wedge Galvanisers), GBCard and Partners, Jacobs Engineering, Capita Symonds, a Mott-MacDonald.



Rhagleni Gradd a Chymwysterau Mynediad



Sesiwn labordy ymarferol



Mae nifer o opsiynau rhaglen ar gael i chi ym mhob cwrs gradd.

Y Rhaglen MEng (Anrhydedd)

Gradd beirianeg yw'r rhaglen MEng sy'n arwain at gymhwyster uwch na'r rhaglen BEng draddodiadol, ac mae'n gofyn am flwyddyn ychwanegol o astudio. Mae'r rhaglen yn rhannu'r ddwy flynedd gyntaf gyda'r rhaglen BEng berthnasol, a'r ddwy flynedd olaf yn cryfhau ac yn ehangu ar eich gwybodaeth yn eich pwnc peirianeg dewisol. Mae'r rhaglen MEng yn cynnig llwybr cyflymach, mwy uniongyrchol i statws Peiriannydd Siartredig na'r rhaglen BEng. Gallwch ond parhau â'r rhaglen hon os byddwch yn perfformio'n dda yn ystod eich dwy flynedd gyntaf o astudio.

Y Rhaglen BEng (Anrhydedd)

Y rhaglen hon yw'r ffordd draddodiadol o astudio peirianeg, ac mae'n ymwneud â thair blynedd o astudio yn eich pwnc dewisol, neu bedair blynedd os byddwch yn dewis yr opsiwn Blwyddyn mewn Diwydiant. Nid yw pob peiriannydd eisiau cael statws siartredig – er enghraifft, y rhai hynny sy'n dewis agweddau penodol ar waith ymchwil, gyrfaodedd yn y Lluoedd, y sector ariannol, neu ryw fath o waith ymgynghori – ac, yn yr achosion hyn, efallai y byddai'r radd BEng yn ddewis mwy priodol na'r MEng. Mae'n bosibl y gellir ennill statws Peiriannydd Siartredig o hyd gyda gradd BEng, ond mae'r sefydliadau proffesiynol yn gofyn i chi gymryd astudiaethau pellach.

Y Rhaglen Blwyddyn mewn Diwydiant

Mae'r rhaglen ryngosod yn ychwanegiad at naill ai'r rhaglen MEng neu BEng, oherwydd mae'n cynnwys blwyddyn ychwanegol o leoliad diwydiannol. Caiff y lleoliad hwn ei wneud ar ôl i chi gwblhau eich dwy flynedd gyntaf o astudio peirianeg, felly mae'r rhaglen MEng yn cymryd pum mlynedd i'w chwblhau a'r rhaglen BEng yn cymryd pedair blynedd. Fodd bynnag, telir cyflog i chi yn ystod eich lleoliad diwydiannol ac, yn aml, o'n profiad ni, mae myfyrwyr y rhaglen ryngosod yn cael marciau gwell yn eu graddau na'r rhai hynny sy'n astudio rhaglenni gradd syml.

Y Rhaglen Blwyddyn yn Ewrop

Mae'r rhaglen Blwyddyn yn Ewrop hefyd yn ychwanegiad at y rhaglenni MEng, ond, y tro hwn, yn hytrach na threulio blwyddyn mewn diwydiant, byddwch yn treulio blwyddyn yn mynychu sefydliad addysg uwch yn Ffrainc, yr Almaen neu yn Sbaen. Caiff eich blwyddyn yn Ewrop ei gwneud ar ôl i chi gwblhau eich tair blynedd gyntaf o astudio yng Nghaerdydd, felly bydd y rhaglen MEng yn cymryd pum mlynedd i'w chwblhau.

Y Rhaglen MEng Rhyngwladol a'r MEng Rhyngwladol gyda Blwyddyn mewn Diwydiant

Cynllun gradd yw'r MEng Rhyngwladol. Mae ar gael ym mhob maes pwnc ac yn cynnig cyfle i fyfyrwyr fynd dramor yn ystod eu hastudiaethau. Mae'n ymwneud â threulio semester yn nhrydedd flwyddyn y rhaglen yn un o sefydliadau partner yr Ysgol y tu allan i Ewrop (er enghraifft, yn yr Unol Daleithiau, Canada, Awstralia a chyrchfannau eraill). Mae'r rhaglen hon wedi'i chyflwyno i roi cyfle i fyfyrwyr gael profiad rhyngwladol, sy'n rhywbeth y mae cyflogwyr yn rhoi mwy a mwy o bwys arno.

Mae'r MEng gyda Blwyddyn mewn Diwydiant hefyd ar gael fel MEng gydag opsiwn rhyngwladol. Mae'r rhaglen newydd hon yn caniatáu i chi dreulio blwyddyn mewn diwydiant ac i dreulio semester yn astudio dramor.

Y Flwyddyn Sylfaen

Sut i ddod yn Beiriannydd heb Safon Uwch mewn Mathemateg

Os ydych chi'n un o'r lliaws o bobl a fyddai'n hoffi bod yn beiriannydd, ond sydd heb y cymwysterau mathemategol priodol, mae gennym raglen i ddiwallu eich anghenion. Enw'r rhaglen yw'r Flwyddyn Sylfaen, ac mae wedi'i chynllunio'n arbennig i roi'r wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen arnoch i'ch galluogi chi i ymdopi â rhaglen radd mewn peirianeg.

Er mai dim ond blwyddyn o hyd yw'r Flwyddyn Sylfaen, dylid ei hystyried fel llwybr mynediad at un o'n rhaglenni gradd. Nid yw'n flwyddyn ar ei phen ei hun; yn hytrach, mae'n rhan gychwynnol o raglen astudio sy'n arwain at radd MEng neu BEng. Os byddwch wedi pasio'r Flwyddyn Sylfaen yn llwyddiannus, byddwch yn symud ymlaen yn awtomatig i flwyddyn gyntaf eich rhaglen radd ddewisol.

Os ydych yn fyfyrwr 'cartref' ar y Flwyddyn Sylfaen, byddwch yn gymwys i gael cymorth gorfodol i fyfyrwyr (cymorth gyda ffioedd hyfforddi a benthygiad i fyfyrwyr ar sail prawf modd) i dalu am bob blwyddyn o astudio yng Nghaerdydd.

Pa fath o gymwysterau sydd eu hangen arnaf?

Mae'r rhaglen wedi'i hanelu at ystod eang o ddarpar ymgeiswyr. Er enghraifft, os ydych wedi pasio TGAU mewn Mathemateg ac wedi cael marciau pasio da ar eich Safon Uwch mewn pynciau nad ydynt yn fathemategol, byddai'r Flwyddyn Sylfaen yn llwybr delfrydol i chi fynd i mewn i beirianeg. Yn yr un modd, os oes gennych BTEC neu gymhwyster galwedigaethol tebyg mewn pwnc ar wahân i beirianeg, Bagloriaeth Ryngwladol neu Dystysgrif Gadael Ysgol nad yw'n cael ei chydabod fel mynediad uniongyrchol i un o'n rhaglenni gradd, yna gallai'r Flwyddyn Sylfaen fod yn berffaith ar eich cyfer.

Weithiau, rhoddir ystyriaeth arbennig i fyfyrwyr aeddfed sy'n dangos y cymhelliant, yr ymrwymiad a'r potensial sydd eu hangen i gwblhau'r Flwyddyn Sylfaen a pharhau i ennill gradd. Mewn achosion o'r fath, gellid hepgor cymwysterau ffurfiol ar ôl ystyried profiad galwedigaethol, ond byddai angen dangos ychydig o dystiolaeth o botensial mathemategol a gwyddonol.



Prif fynedfa'r Ysgol Peirianeg

Strwythur y Rhaglen

Cafodd y rhaglen ei chynllunio i roi cyflwyniad i fyfyrwyr o ystod eang o beirianeg, drwy fodiwlau sy'n cynnwys darlithoedd, tiwtorialau ac astudiaethau achos. Mae'r rhain yn cynnwys elfennau o Fathemateg, Ffiseg a Thechnoleg Gwybodaeth sy'n berthnasol i beirianeg.

Mae natur ymarferol y rhaglen yn cyferbynnu â'r ffordd y gallai pynciau o'r fath fod wedi'u cyflwyno yn yr ysgol. Asesir y myfyrwyr drwy waith prosiect, asesiadau parhaus ac arholiadau ar ddiwedd semester.

Sut i Wneud Cais


Pan fyddwch yn cwblhau eich cais UCAS, nodwch y rhaglen radd beirianeg rydych eisiau ei hastudio ar ôl y Flwyddyn Sylfaen, yn ogystal â defnyddio'r cod cwrs H101.

Noder: os byddwch yn cwblhau'r Flwyddyn Sylfaen i safon foddhaol, mae'n bosib na fydd rhaid i chi ddilyn eich dewis gwreiddiol o raglen radd.

Gofynion Mynediad

AAB-ABB ar Safon Uwch, heb gynnwys Mathemateg. I weld y graddau mynediad diweddaraf neu i weld gofynion mynediad eraill, fel BTEC, Bagloriaeth Ryngwladol ac ati, ewch i'r wefan: www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/courses/browse-by-school/school-of-engineering

Y Rhaglen Sylfaen Ryngwladol



Myfyrwyr yn gwneud gwaith grŵp

Y Rhaglen Sylfaen Ryngwladol mewn Peirianeg

Rhaglen academiaidd un flwyddyn o h yd yw hon sydd wedi'i chynllunio'n arbennig i roi'r sgiliau academiaidd a Saesneg sydd eu hangen arnoch i gael mynediad i astudiaethau israddedig mewn Peirianeg. Bydd pob myfyrwr sy'n pasio'r Rhaglen Sylfaen Ryngwladol gyda sgôr gyffredinol o 50% o leiaf yn cael lle pendant ar ei gwrs gradd dewisol yn yr Ysgol Peirianeg.

Mae Rhaglen Sylfaen Ryngwladol Prifysgol Caerdydd wedi'i chynllunio ar gyfer y canlynol:

- Myfyrwyr y mae eu cymwysterau wrth adael yr ysgol uwchradd yn golygu bod angen iddynt wneud blwyddyn ychwanegol o astudio er mwyn cyrraedd y lefel briodol ar gyfer astudiaethau israddedig yn y DU.
- Myfyrwyr â'r cymwysterau academiaidd priodol, sydd angen datblygu eu Saesneg a'u sgiliau astudio mewn paratoad ar gyfer rhaglen radd israddedig ym Mhrifysgol Caerdydd, neu yn rhywle arall yn y DU.

Strwythur y Cwrs

Cynlluniwyd y cwrs i baratoi myfyrwyr ar gyfer astudiaethau israddedig mewn Peirianeg. Mae'r modiwlau'n cyflwyno myfyrwyr i ystod eang o beirianeg drwy ddarlithoedd a thiworialau, ac yn ymdrin ag agweddau ar Galcwlws a Mecaneg.

Mae'r rhaglen Beirianeg fodiwlaid yn cynnwys y canlynol:

- Cyflwyniad i Fecaneg
- Cyflwyniad i Galcwlws
- Egwyddorion Peirianeg

Mae'r modiwlau ar yr iaith Saesneg fel a ganlyn:

- Sgiliau Saesneg ac Astudio
- Sgiliau Saesneg ac Astudio II
- Saesneg at Ddibenion Academiaidd
- Sgiliau Astudio Integredig
- Amgylchedd Cymdeithasol a Diwylliannol Prydain

Un o amcanion pwysicaf y Rhaglen Sylfaen yw darparu'r paratoad perffaith ar eich cyfer fel y gallwch wneud yn dda mewn cwrs academiaidd a addysgir yn Saesneg. Bydd y cwrs yn adolygu eich gwybodaeth am ramadeg a geirfa Saesneg ac yn eich helpu chi i wella fel y gallwch ddatblygu sylfaen gadarn i'w defnyddio'n academiaidd. Byddwch yn ymarfer darllen, ysgrifennu, gwrando a siarad er mwyn datblygu cywirdeb a rhuglder. Bydd y cwrs yn cynnwys gwahanol fformatau ysgrifenedig ac ar lafar er mwyn helpu i ddatblygu arddull academiaidd.

Bydd astudio diwylliant a gofynion addysg uwch Prydain yn eich paratoi chi ar gyfer gwahanol ddulliau addysgu a dysgu, fel cyflwyno seminar neu ysgrifennu adroddiad. Erbyn diwedd y cwrs, dylai fod gennych ddigon o hyder yn eich gallu Saesneg i allu cyfrannu'n llawn at drafodaethau dosbarth, cwblhau aseiniadau ysgrifenedig a manteisio i'r eithaf ar eich astudiaethau ym Mhrifysgol Caerdydd.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fodiwlau craidd yn www.caerdydd.ac.uk/ifp

Sut i Wneud Cais

Gellir cael yr wybodaeth lawn am y Rhaglen a ffurflen gais ar gyfer y Rhaglen Sylfaen Ryngwladol yn: www.caerdydd.ac.uk/ifp neu drwy gysylltu â foundation@caerdydd.ac.uk neu drwy ffonio: +44 (0)29 2087 6416.

Blwyddyn Sylfaen

Os yw eich Saesneg yn dda, ond bod angen help ychwanegol arnoch gyda'ch Mathemateg, gallai Blwyddyn Sylfaen yr Ysgol Beirianeg ei hun fod yn gwrs delfrydol i chi. Mae'r Flwyddyn Sylfaen wedi'i chynllunio'n arbennig i roi'r wybodaeth sylfaenol sydd ei hangen arnoch i'ch galluogi chi i ymdopi â rhaglen radd mewn peirianeg. Er mai dim ond blwyddyn o hyd yw'r Flwyddyn Sylfaen, rhaid ei hystyried fel llwybr mynediad at un o'n rhaglenni gradd. Nid yw'n flwyddyn ar ei phen ei hun; yn hytrach, mae'n rhan gychwynnol o raglen astudio sy'n arwain at radd MEng neu BEng. Os byddwch wedi pasio'r Flwyddyn Sylfaen yn llwyddiannus, byddwch yn symud ymlaen yn awtomatig i flwyddyn gyntaf eich rhaglen radd ddewisol.

Mae'r Flwyddyn Sylfaen wedi'i chynllunio ar gyfer myfyrwyr â Saesneg da, ond sydd â chymwysterau gadael ysgol uwchradd sy'n golygu bod angen blwyddyn ychwanegol o astudio i gyrraedd y lefel briodol ar gyfer astudiaethau israddedig yn y DU. Mae hefyd i fyfyrwyr â chanlyniadau da mewn pynciau heblaw am Fathemateg a fyddai'n hoffi mynd ar drywydd gyrfya ym maes Peirianeg ac sydd angen felly astudiaethau mathemategol pellach er mwyn gwneud rhaglen radd mewn Peirianeg.

Strwythur y Cwrs

Mae'r cwrs yn debyg i'r Rhaglen Sylfaen Ryngwladol, ond mae ganddo fodiwlau ychwanegol mewn pynciau sy'n ymwneud â pheirianeg.

Asesir y myfyrwyr drwy waith prosiect, asesiadau parhaus ac arholiadau ar ddiwedd semester.

Sut i Wneud Cais

Mae'n rhaid i chi wneud cais i UCAS ar gyfer y cwrs hwn – gweler tudalen 35 am fanylion. Pan fyddwch yn llenwi eich ffurflen UCAS, nodwch y rhaglen radd beirianeg rydych eisiau ei hastudio ar ôl y Flwyddyn Sylfaen, yn ogystal â defnyddio'r cod cwrs H101.

Peirianeg Bensaernïol

Ydych chi'n chwilio am yrfa sy'n greadigol, yn heriol ac yn dod â boddhad? Yna gall ein rhaglen radd mewn Peirianeg Bensaernïol fod yn addas i'ch anghenion. Mae'n radd beirianeg gydag wyneb dynol, sy'n cyfuno heriau a dyfeisgarwch y diwydiant adeiladu modern gyda dawn am wreiddioldeb a chreadigrwydd.

Mae creu adeiladau'n waith cymhleth sy'n gofyn am sgiliau llawer o bobl broffesiynol fel penseiri, peirianwyr strwythurol, peirianwyr gwasanaethau adeiladu a llawer mwy. Mae'r rhaglenni gradd mewn Peirianeg Bensaernïol yn darparu amgylchedd dysgu eang, a fydd yn eich galluogi chi i ddeall y broses sydd wrth wraidd adeiladu adeilad.

Rhoddir pwyslais penodol ar beirianeg strwythurol ac astudiaethau pensaernïol drwy gydol y broses hon, yn ogystal â'r deunydd peirianeg sifil craidd. I gefnogi gwaith amlddisgyblaethol, mae angen datblygu ystod eang o sgiliau technegol a phersonol, ynghyd â chymhwyso'r sgiliau hyn yn ymarferol a'u gwella – er enghraifft, mewn dosbarthiadau dylunio fel y Stiwdio Dylunio Peirianeg Bensaernïol, lle bydd myfyrwyr yn llunio cynllun amlddisgyblaethol sy'n cysylltu dylunio creadigol, pensaernïaeth, swyddogaethau adeiladu, adeiladwaith a gwasanaethau.

Caiff sgiliau ymarferol ac ymchwilol eu gwella ymhellach gan gyrsiau maes a phrosiectau ymchwil, a chaiff elfennau o'r cwrs eu cefnogi a'u cyflenwi gan gwmnïau peirianeg mawr, a fydd yn darparu cysylltiadau â'r diwydiant drwy gydol eich amser yma.

Strwythur y Cwrs

Mae'r rhaglen radd hon ar gael ar lefel MEng a BEng. Er bod yr MEng yn ymdrin â'r un pynciau â'r BEng, mae'n edrych yn ddyfnach ar y pynciau craidd ac yn ehangu ar y modiwlau ategol. Yn nodweddiadol, mae'r MEng yn rhoi mwy o ddyfnder i feysydd fel materion amgylcheddol a phynciau pensaernïol uwch.

Mae'r ddwy raglen yn cynnig opsiwn Blwyddyn mewn Diwydiant, lle mae'r myfyrwyr yn gweithio mewn diwydiant am flwyddyn ac yna'n dychwelyd i gwlbhu eu rhaglenni gradd. Mae gan y rhain yr un cynnwys academaidd â'r rhaglenni amser llawn, ond caiff y flwyddyn ychwanegol ei threulio'n cael profiad

mewn diwydiant, naill ai gartref neu dramor. Bydd hyn ar ffurf hyfforddiant wedi'i oruchwylio gyda chwmni addas, a fydd yn talu cyflog arferol am y gwaith a wneir. Dengys profiad fod y flwyddyn o hyfforddiant diwydiannol yn gwella'r ddealltwriaeth o berthnasedd yr addysgu, ac yn tueddu i arwain at berfformiad gwell yn yr arholiadau terfynol.

Gall myfyrwyr hefyd gofrestru ar opsiwn gradd yr MEng Rhyngwladol, sy'n eich galluogi i astudio am semester yn un o'n prifysgolion partner byd-eang.

Yn ogystal, mae'r rhaglen MEng yn cynnig cyfle i dreulio blwyddyn ychwanegol mewn prifysgol yn Ewrop drwy'r opsiwn gradd Blwyddyn yn Ewrop. Mae'r rhaglen hon i'r rhai hynny sy'n dymuno datblygu eu sgiliau ieithyddol mewn Almaeneg, Ffrangeg neu Sbaeneg. Caiff modiwlau iaith arbennig eu darparu drwy'r rhaglen radd ar gyfer y myfyrwyr hyn.



Myfyrwyr Peirianeg Bensaernïol wrth eu gwaith

Mae'r holl raglenni wedi'u hachredu gan Sefydliad y Peirianwyr Sifil a Sefydliad y Peirianwyr Strwythurol, a'r MEng yn bodloni'r gofynion addysgol i fod yn Beiriannydd Siartredig (CEng) a'r BEng yn darparu'r sylfaen addysgol i fod yn Beiriannydd Corfforedig (IEng), ac yn bodloni'n rhannol hefyd y gofynion ar gyfer y CEng.

Cyflogaeth

Mae'r rhaglenni gradd mewn Peirianeg Bensaernïol yng Nghaerdydd yn cael eu hadnabod am eu hansawdd uchel iawn. Mae hyn, ynghyd â'r ffaith fod Caerdydd yn cael ei gydnabod fel un o ganolfannau gorau Prydain ar gyfer addysgu peirianeg, yn golygu bod ein graddedigion yn cael swyddi o ansawdd da yn hawdd. Yn aml iawn, daw peirianwyr pensaernïol o hyd i gyflogaeth mewn practisau dylunio amlddisgyblaethol, lle bydd gweithwyr proffesiynol o ddisgyblaethau amrywiol yn gweithio. Yn ogystal, mae rhai o'n graddedigion yn penderfynu gweithio i bractisau pensaernïol traddodiadol neu i gwmnïau peirianwyr strwythurol. Mae'n well gan eraill gontractio a rheoli ar safleoedd, gan ddarparu cyswllt allweddol rhwng y peirianwyr dylunio a'r penseiri.

Rhagoriaeth mewn Gwaith Ymchwil ac Effaith Peirianeg Bensaernïol

Yn ystod asesiad diweddaraf y llywodraeth o waith ymchwil, barnwyd mai Peirianeg Sifil Caerdydd (sydd hefyd yn cynnwys Peirianeg Bensaernïol) oedd y gorau yn y DU, a hi hefyd oedd y gorau yn y DU am effaith ei gwaith ymchwil. Mae ein gwaith yn flaenllaw yn rhyngwladol, ac mae ein myfyrwyr yn cyfrannu at hyn drwy brosiectau ac astudiaethau pellach. Os hoffech wneud gwaith ymchwil ar ôl graddio, mae digonedd o gyfleoedd yng Nghaerdydd ar lefel MSc a PhD, mewn pynciau sydd wedi'u halinio â'r cyrsiau israddedig, fel adeiladu cynaliadwy a Modelu Gwybodaeth am Adeiladu (BIM).

Rhagor o wybodaeth:
www.cardiff.ac.uk/cy/engineering
 Cysylltwch â:
Dr Michaela Bray
 Ffôn: 029 2087 9999
 E-bost: engineering-ug@caerdydd.ac.uk



Myfyrwyr yn gweithio yn un o labordai'r Ysgol Peirianeg

Rhaglenni Gradd

MEng (Anrhydedd)
 4 blynedd amser llawn **H294**

MEng (Anrhydedd)
 4 blynedd gyda semester dramor (Rhyngwladol) **H298**

MEng (Anrhydedd)
 5 mlynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant **H295**

MEng (Anrhydedd)
 5 blynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant a semester dramor (Rhyngwladol) **H299**

MEng (Anrhydedd)
 5 mlynedd gyda Blwyddyn yn Ewrop **H291**

BEng (Anrhydedd)
 3 blynedd amser llawn **H292**

BEng (Anrhydedd)
 4 mlynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant **H293**

Achrediad

Sefydliad y Peirianwyr Strwythurol
 Sefydliad y Peirianwyr Sifil

Gofynion Mynediad

MEng: AAA-AAB ar Safon Uwch.
 Rhaid iddo gynnwys Mathemateg.

BEng: ABB-BBB ar Safon Uwch.
 Rhaid iddo gynnwys Mathemateg.

I weld y graddau mynediad diweddaraf neu i weld gofynion mynediad eraill, fel BTEC, Bagloriaeth Ryngwladol ac ati, ewch i'r wefan:
www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/courses/browse-by-school/school-of-engineering

Peirianeg Sifil



Mae Peirianeg Sifil yn cynnig gyrfa ryngwladol ysgogol ac amrywiol. Mae Peirianwyr Sifil yn dylunio, adeiladu ac yn cynnal a chadw ffyrdd, pontydd, adeiladau, meysydd awyr, amddiffynfeydd llifogydd ac arfordirol, twneli, rhaglenni cyflenwi dŵr, argaeau, a llawer o adeileddau a phrosiectau eraill. Caiff Peirianwyr Sifil eu cyflogi hefyd ym maes adeiladu, dylunio awyrennau, adeiladu llongau ac yn y diwydiant olew, yn ogystal â mewn gyrfaoedd eraill fel TG, cyfrifyddu a'r proffesiwn cyfreithiol.

Fel Peiriannydd Sifil, byddech yn gweithio ar y rhyngwyneb rhwng yr amgylchedd adeiledig a'r amgylchedd naturiol, yn dylunio ac yn adeiladu'r un gyntaf wrth ddiogelu a gwarchod yr ail. Mae'r cyrsiau yng Nghaerdydd yn cynnig gwybodaeth sylfaenol mewn meysydd allweddol fel peirianeg dŵr, strwythurol a geodechnegol, a chymhwysir yr wybodaeth hon drwy ddosbarthiadau dylunio, prosiectau ymchwil, dosbarthiadau labordy a chysiau maes.

Cefnogir y rhain gan staff sydd â llawer o brofiad ymarferol a diwydiannol. Ceir cyfraniad diwydiannol ar nifer o bwyntiau yn ystod ein cyrsiau, gyda'r holl ddarlithoedd a gwaith dylunio wedi'u cefnogi gan gwmnïau mawr perthnasol. Drwy gyfuno astudiaethau craidd ac opsiynol, maen nhw'n cynnig gwybodaeth eang sy'n caniatáu i chi arbenigo mewn amrywiaeth o wahanol feysydd, gan gynnwys peirianeg

strwythurol, peirianeg geodechnegol, peirianeg dŵr, peirianeg amgylcheddol ac eraill. Mae llinyn o broffesiynoliaeth a datblygiad personol yn bresennol drwy gydol y cwrs i annog eich cynnydd tuag at ddod yn beiriannydd proffesiynol â chydabyddiaeth ryngwladol.

Strwythur y Cwrs

Mae graddau'r BEng a'r MEng wedi'u hachredu'n llwyr gan Sefydliadau'r Peirianwyr Sifil a Strwythurol. Mae'r MEng yn radd uwch; mae myfyrwyr y MEng yn elwa ar ddysgu uwch mewn dylunio a rheoli, a hwn yw'r llwybr mwyaf poblogaidd i ddod yn Beiriannydd Siartredig. Gradd tair blynedd o hyd yw'r BEng, sy'n cynnig llwybr i fod yn Beiriannydd Corfforedig, neu tuag at fod yn Beiriannydd Siartredig.

Mae'r Flwyddyn mewn Diwydiant yn cynnwys blwyddyn o hyfforddiant ymarferol â thâl mewn diwydiant. Mae ein henw da yn ei gwneud hi'n hawdd lleoli myfyrwyr gyda chwmnïau a

sefydliadau da, yn lleol, yn genedlaethol a hyd yn oed yn rhyngwladol. Un o fanteision y rhaglenni rhyngosod yw bod y profiad ymarferol yn eich helpu chi i gysylltu eich addysgu â'r arferion peirianeg cyfredol, ac mae'n well gan lawer o gyflogwyr gael graddedigion â llawer o brofiad ymarferol.

Rydym hefyd yn cynnig rhaglen MEng Rhyngwladol, sy'n galluogi myfyrwyr i dreulio semester yn y drydedd flwyddyn yn astudio yn un o'r 70 a mwy o brifysgolion partner sydd gennym dramor.

Mae'r rhaglen Blwyddyn yn Ewrop wedi'i hanelu at y myfyrwyr hynny sy'n astudio MEng sydd eisoes ag ychydig o sgiliau ieithyddol ac eisiau eu gwella, gan gynnig profiad amhrisiadwy i chi o fyw a gweithio dramor. Darperir dosbarthiadau iaith i gefnogi eich datblygiad a'ch paratoi chi ar gyfer y flwyddyn dramor, a bydd Caerdydd yn cadw mewn cysylltiad â chi yn ystod eich amser i ffwrdd drwy gymorth tiwtor penodedig.

Cyflogaeth

Mae cyflogwyr yn cydnabod mai'r Ysgol Peirianeg yw un o ganolfannau gorau Prydain am addysgu peirianeg. Mae ein graddedigion Peirianeg Sifil yn dod o hyd i waith yn hawdd gyda nifer fawr o gyflogwyr, fel cwmnïau ymgynghori ar ddylunio, contractwyr adeiladu, cyfleustodau, a llywodraethau lleol a chenedlaethol. Mae nifer fawr o raddedigion yn dechrau gweithio mewn swyddi diwydiannol perthnasol, naill ai fel ymgynghorwyr, yn canolbwyntio ar ddylunio a rheoli prosiectau, contractwyr, yn canolbwyntio ar brosesau adeiladu a gwaith ar safleoedd, neu o bosibl mewn swyddi llywodraethol neu reoleiddiol, yn edrych ar y darlun mwy o faint. Yn ogystal, mae rhai o'n graddedigion yn dewis dod o hyd i waith y tu allan i Beirianeg Sifil, gyda'r galluedd i ddadansoddi a datrys problemau a ddarperir gan y radd yn eu gwneud yn gyflogadwy iawn mewn amrywiaeth o feysydd.

Rhagoriaeth mewn Gwaith Ymchwil ac Effaith Peirianeg Sifil

Yn ystod asesiad diweddaraf y llywodraeth o waith ymchwil, barnwyd mai Peirianeg Sifil Caerdydd oedd y gorau yn y DU, a hi hefyd oedd y gorau yn y DU am effaith ei gwaith ymchwil. Mae ein gwaith yn flaenllaw yn rhyngwladol, ac mae ein myfyrwyr yn cyfrannu at hyn drwy brosiectau ac astudiaethau pellach. Os hoffech wneud gwaith ymchwil ar ôl graddio, mae digonedd o gyfleoedd yng Nghaerdydd ar lefel MSc a PhD mewn meysydd fel peirianeg strwythurol a pheirianeg geodechnegol, sydd wedi'u halinio i'r deunydd a addysgir ar lefel israddedig.

Rhaglenni Gradd

MEng (Anrhydedd) 4 blynedd amser llawn	H207
MEng (Anrhydedd) 4 blynedd gyda semester dramor (Rhyngwladol)	H205
MEng (Anrhydedd) 5 mlynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant	H208
MEng (Anrhydedd) 5 blynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant a semester dramor (Rhyngwladol)	K3G1
MEng (Anrhydedd) 5 mlynedd gyda Blwyddyn yn Ewrop	H209
BEng (Anrhydedd) 3 blynedd amser llawn	H200
BEng (Anrhydedd) 4 mlynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant	H201

Achrediad

Sefydliad y Peirianwyr Sifil
Sefydliad y Peirianwyr Strwythurol

Gofynion Mynediad

MEng: AAA-AAB ar Safon Uwch.
Rhaid iddo gynnwys Mathemateg.

BEng: ABB-BBB ar Safon Uwch.
Rhaid iddo gynnwys Mathemateg.

I weld y graddau mynediad diweddaraf neu i weld gofynion mynediad eraill, fel BTEC, Bagloriaeth Ryngwladol ac ati, ewch i'r wefan: www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/courses/browse-by-school/school-of-engineering

Rhagor o wybodaeth:
www.cardiff.ac.uk/cy/engineering
Cysylltwch â:
Dr Michaela Bray
Ffôn: 029 2087 9999
E-bost: engineering-ug@caerdydd.ac.uk



Profi holltau



Myfyrwyr yn ymlacio y tu allan i'r Ysgol Peirianeg

Peirianeg Sifil ac Amgylcheddol

Mae gan Beirianwyr Sifil ac Amgylcheddol y sgiliau i wneud cyfraniad cadarnhaol i'r problemau fwyfwy anodd a wynebwr gan gymdeithas a'r amgylchedd.

Maen nhw'n cyfrannu tuag at gyflawni cymdeithas fwy cynaliadwy, yn ogystal â datrys problemau technegol heriol yn y maes amgylcheddol a thu hwnt.

Mae cymdeithas yn wynebu fwyfwy o broblemau amgylcheddol, yn fyd-eang ac yn lleol. Peirianwyr sifil ac amgylcheddol sy'n mynd i'r afael â risgiau mawr i gymdeithasau ac economïau gan amgylcheddau newidiol, a nhw hefyd sy'n ymdrin â mynediad i ddŵr yfed glân a diogel a phroblemau mawr a bach sy'n ymwneud â gwastraff a llygredd.

Ar ein rhaglen radd Peirianeg Sifil ac Amgylcheddol, byddwch yn astudio amrywiaeth eang o bynciau ym maes yr amgylchedd a fydd yn ategu astudiaethau craidd mewn peirianeg sifil, gan ganiatáu i chi ymdrin â'r problemau hyn a'u datrys. Caiff dysgu ymarferol, ar y cyd â staff arbenigol a chyda chefnogaeth o'r diwydiant ar nifer o bwyntiau, eu gwau i mewn i'r holl gwrs er mwyn rhoi profiad i chi o broblemau go iawn – er enghraifft, drwy gyrsgau maes, dosbarthiadau dylunio a phrosiectau ymchwil. Un enghraifft o hyn yw'r modiwl Arferion Diwydiannol, sy'n rhoi'r cyfle i fyfyrwyr weithio fel timau peirianeg proffesiynol gyda chydweithredwr diwydiannol, yn nodi problemau ac yn ymchwilio a chynnig dyluniadau economaidd ar gyfer gwella'r amgylchedd.

Strwythur y Cwrs

Mae'r rhaglen radd Peirianeg Sifil ac Amgylcheddol yn cynnig nifer o opsiynau. Mae cyrsiau BEng (3 blynedd) ac MEng (4 blynedd) ar gael, sy'n debyg iawn mewn strwythur ar y dechrau, ond mae'r un olaf yn cynnig mwy o ddyfnder ar agweddau technegol penodol yn ogystal â chymhwysiad egwyddorion dylunio. Mae pob rhaglen a gynigir wedi'i hachredu gan Sefydliad y Peirianwyr Sifil a Sefydliad y Peirianwyr Strwythurol. Mae rhaglen yr MEng yn darparu'r gofyniad addysgol i fod yn beiriannydd siartredig, tra bo llwybr y BEng yn bodloni'r gofyniad hwn yn rhannol, yn ogystal â darparu'r gofyniad llawn i fod yn Beiriannydd Corfforaethol.

Mae cynllun Blwyddyn mewn Diwydiant (lleoliad rhyngosod) ar gael ar y cwrs BEng ac MEng, sy'n cynnig profiad diwydiannol amhrisiadwy i fyfyrwyr mewn swydd â thâl. Mae'r myfyrwyr ar y cynllun hwn yn gweithio gyda chontractwyr, ymgynghorwyr, cleientiaid a chyrrff llywodraethol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan ennyn dealltwriaeth ddofn a chyfrifoldeb yn y byd real a'u helpu i ganolbwyntio a llunio eu hastudiaethau a'u gyrfaedd yn y dyfodol.

Mae ein rhaglen MEng (Rhyngwladol) yn cynnig y radd MEng arferol, gydag un semester yn y drydedd flwyddyn yn cael ei threulio gyda phrifysgol bartner dramor (gellir dewis o fwy na 70 o sefydliadau ledled y byd).

Dysgir y cyrsiau hyn yn Saesneg, ac maen nhw wedi'u halinio gyda'r cyrsiau yma ym Mhrifysgol Caerdydd er mwyn sicrhau dilyniant di-dor. Bydd cael profiad rhyngwladol o'r fath yn brofiad gwerthfawr yn y diwydiant peirianeg sifil sy'n canolbwyntio ar brosiectau rhyngwladol.

Mae'r cynllun Blwyddyn yn Ewrop, sy'n cynnig blwyddyn mewn prifysgol yn Ewrop, i'r rhai hynny ar y rhaglen MEng sydd eisiau datblygu eu sgiliau ieithyddol mewn Almaeneg, Ffrangeg neu Sbaeneg. Caiff modiwlau iaith arbennig eu darparu drwy'r rhaglen radd ar gyfer y myfyrwyr hyn.



Cyfuno peirianeg sifil ac amgylcheddol er mwyn dylunio dinasoedd mwy cynaliadwy

Cyflogaeth

Nid yw graddedigion ar y rhaglen radd hon yn cael unrhyw anhawster cael cyflogaeth berthnasol oherwydd mae galw mawr am beirianwyr ag arbenigeddau amgylcheddol. Cwmnïau ymgynghori sy'n cynnig llawer o'r cyfleoedd gwaith, yn ogystal â chontractwyr, sefydliadau llywodraethol a chwmnïau eraill lle y mae galw mawr am sgiliau rhifyddol a dadansoddol uwch. Gallai enghreifftiau penodol o'r swyddi y gallai graddedigion Peirianeg Sifil ac Amgylcheddol eu gwneud yn y pen draw gynnwys dylunio, gweithredu a rheoli ffatrïoedd trin dŵr; rheoli amddiffynfeydd llifogydd; adfer ac ailennill tir halogedig; systemau trafnidiaeth integredig; a busnesau ymgynghori peirianeg sifil gyffredinol.

Rhagoriaeth mewn Gwaith Ymchwil ac Effaith Peirianeg Sifil ac Amgylcheddol

Mewn nifer o achosion, mae ein graddedigion yn dewis cofrestru am raddau uwch, naill ai i gael sgiliau mwy arbenigol cyn dechrau ar eu gyrfaedd neu i wneud gwaith ymchwil. Mae gan yr Ysgol enw rhagorol am waith ymchwil ym maes Peirianeg Sifil ac Amgylcheddol, a barnwyd yn asesiad ymchwil diweddaraf y llywodraeth mai'r Ysgol hon oedd yr orau ym maes Peirianeg Sifil a'r orau am ei heffaith yn y maes hwn. Mae wedi ennill nifer o wobrau gan gwmnïau lleol yn ddiweddar am ei gwaith ar reoli gwastraff a datblygu cynaliadwy. Mae ein gwaith yn flaenllaw yn rhyngwladol, ac mae ein myfyrwyr yn cyfrannu at hyn drwy brosiectau ac astudiaethau pellach. Os hoffech wneud gwaith ymchwil ar ôl graddio, mae digonedd o gyfleoedd yng Nghaerdydd ar lefel MSc a PhD mewn meysydd perthnasol fel peirianeg sifil a pheirianeg amgylcheddol, sydd wedi'u halinio i'r deunydd a addysgir ar lefel israddedig.

Rhaglenni Gradd

MEng (Anrhydedd)
4 blynedd amser llawn **H226**

MEng (Anrhydedd)
4 blynedd gyda semester dramor (Rhyngwladol) **H230**

MEng (Anrhydedd)
5 mlynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant **H224**

MEng (Anrhydedd)
5 mlynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant a semester dramor (Rhyngwladol) **T1N9**

MEng (Anrhydedd)
5 mlynedd gyda Blwyddyn yn Ewrop **H225**

BEng (Anrhydedd)
3 blynedd amser llawn **H221**

BEng (Anrhydedd)
4 mlynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant **H222**

Achrediad

Sefydliad y Peirianwyr Sifil
Sefydliad y Peirianwyr Strwythurol

Gofynion Mynediad

MEng: AAA-AAB ar Safon Uwch.
Rhaid iddo gynnwys Mathemateg.

BEng: ABB-BBB ar Safon Uwch.
Rhaid iddo gynnwys Mathemateg.

I weld y graddau mynediad diweddaraf neu i weld gofynion mynediad eraill, fel BTEC, Bagloriaeth Ryngwladol ac ati, ewch i'r wefan:
www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/courses/browse-by-school/school-of-engineering

Rhagor o wybodaeth:
www.cardiff.ac.uk/cy/engineering
Cysylltwch â:
Dr Michaela Bray
Ffôn: 029 2087 9999
E-bost: engineering-ug@caerdydd.ac.uk



Myfyrwyr yn arbrofi yn y labordy hydro-amgylcheddol



Peirianeg Drydanol ac Electronig

Y Rhaglen Radd

Wrth astudio Peirianeg Drydanol ac Electronig yng Nghaerdydd, byddwch chi wrth galon disgyblaeth beirianegol fywiog sy'n symud yn gyflym. Bydd y cynllun gradd hwn, a arweinir gan waith ymchwil, yn cynnig llwybr carlam i ennill statws Peiriannydd Siartredig gan y Sefydliad Peirianeg a Thechnoleg. Yn ogystal, gall y cysylltiadau cryf sydd gennym â'n partneriaid diwydiannol gynnig cyfleoedd ar gyfer lleoliadau gwaith a nawdd posibl yn ystod eich astudiaethau. Adolygir y rhaglen radd bob blwyddyn a cheir mewnbwn gan ein partneriaid diwydiannol er mwyn sicrhau bod y modiwlau a addysgir yn arloesol ac yn adlewyrchu cyflwr cyfredol y diwydiant.

Cyfleusterau o'r Radd Flaenaf

Derbyniodd elfen addysgu ein rhaglenni gradd fuddsoddiad mawr yn ddiweddar drwy ddarpariaeth labordai addysgu modern, sy'n galluogi myfyrwyr i gael profiad o'r offer a meddalwedd arbrofi ddiweddaraf a ddefnyddir gan y diwydiant.

Rhagolygon Gyrfa

Mae gan fyfyrwyr sy'n graddio o Gaerdydd gyda gradd mewn Peirianeg Drydanol ac Electronig ragolygon gyrfa rhagorol. Mae gan yr Ysgol gysylltiadau cryf â'r holl brif gyflogwyr yn y maes hwn, ac mae galw mawr am raddedigion â chymwysterau da.

Strwythur y Rhaglen

Rydym hefyd yn cynnig rhaglen MEng Rhyngwladol, sy'n galluogi myfyrwyr i dreulio semester yn astudio mewn prifysgol dramor.

Lefel Un

Mae'r flwyddyn gyntaf yr un peth i bob cyfuniad o'n rhaglenni gradd, ac mae'n rhoi'r sgiliau dadansoddi, cyfrifiadura ac arbrofi sylfaenol i chi.

Dyma rai o'r modiwlau y byddwch yn eu hastudio:

- ▶ Mathemateg
- ▶ Electroneg Ddigidol ac Analog
- ▶ Electromagneteg a Chylchredau
- ▶ Deunyddiau
- ▶ Telegyfathrebiadau
- ▶ Peirianeg Pŵer

Byddwch hefyd yn astudio technoleg gwybodaeth ac astudiaethau peirianeg proffesiynol, ac yn datblygu sgiliau cyfathrebu ar lafar ac ar bapur.

Lefel Dau

Mae'r ail flwyddyn, sydd hefyd yr un peth i bob rhaglen, yn ehangu ar yr astudiaeth o'r pynciau craidd ac yn eich cyflwyno chi i'r canlynol:

- ▶ Microbroseswyr ac Offeryniaeth
- ▶ Peirianeg Reoli
- ▶ Peirianeg Feddalwedd
- ▶ Rheoli Peirianeg

- ▶ Dadansoddi Systemau Pŵer a Pheiriannau
- ▶ Meysydd EM a Llinellau Trawsyrru

Mae hefyd opsiwn i astudio Ffrangeg, Sbaeneg neu Almaeneg.

Lefel Tri

Erbyn cyrraedd y pwynt hwn o'r rhaglen radd, byddwch yn gallu datblygu'r ehangder, y dyfnder a'r hyblygrwydd technegol sydd eu hangen yn yr amgylchedd technegol amlddisgyblaethol sydd gennym heddiw. Dyma le bydd natur ymchwilol ein rhaglenni yn caniatáu i chi arbenigo ar faes penodol mewn Peirianeg Drydanol ac Electronig. (Byddwch yn mynd ar leoliadau diwydiannol ar ôl eich ail flwyddyn o astudio.)

Mae'r modiwlau uwch ar lefel tri yn cynnwys:

- ▶ Peiriannau a Gyriannau Trydanol
- ▶ Peirianeg Amledd Uchel ac Amledd Radio
- ▶ Rheolaeth Awtomatig
- ▶ Electroneg Pŵer

Mae'r arbenigeddau yn y maes hwn yn cynnwys cynllunio systemau pŵer gyda chymorth cyfrifiadura, peirianeg foltedd uchel, a pheiriannau a gyriannau.



Myfyrwyr yn cael mynediad i'r cyfarpar diweddaraf



Dosbarthiadau'n cael eu cynnal yn y Labordy Peiriannau Trydanol sydd newydd gael ei ailwampio


Ym mhob rhaglen lefel tri, byddwch yn cymryd rhan mewn prosiect unigol mawr a fydd yn ymestyn dros ddau semester. Anogir myfyrwyr i gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil a phrosiectau a arweinir gan y diwydiant yn eu maes canolbwyntio dewisol.

Lefel Pedwar (Rhaglenni MEng yn unig)

Mae blwyddyn olaf rhaglen yr MEng wedi'i dylunio i ymdrin â phynciau technegol mewn mwy o ddyfnder ac ehangder, fel y nodir gan gorff proffesiynol yr IET.

Mae'r modiwlau lefel pedwar sydd ar gael yn y rhaglen hon yn cynnwys y canlynol:

- ▶ Electroneg Pŵer a Gyriannau Uwch
- ▶ Systemau Pŵer a Thechnoleg Foltedd Uchel Uwch
- ▶ Systemau Ynni Amgen
- ▶ Rheoli mewn Diwydiant



Prifysgol Caerdydd yw un o'r prifysgolion prin yn y DU sy'n aelodau o Sefydliad Sgiliau Electroneg y DU (UKESF) a'r Power Academy. Mae'r sefydliadau hyn wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â'r prinder sgiliau yn y meysydd hyn.

Maen nhw'n darparu cymorth gyda chost astudio drwy ysgoloriaethau a chyfleoedd datblygu proffesiynol i fyfyrwyr sy'n astudio rhaglenni gradd sy'n ymwneud â Pheirianneg Drydanol ac Electronig. Gweler conferences.theiet.org/power-academy am ragor o wybodaeth am y Power Academy, ac www.ukesf.org/scholarship-scheme am wybodaeth ynghylch Sefydliad Sgiliau Electroneg y DU.

Rhagor o wybodaeth:
www.cardiff.ac.uk/cy/engineering

Cysylltwch â:
Dr Sian Armstrong
Ffôn: 029 2087 9999
E-bost: engineering-ug@caerdydd.ac.uk

Rhaglenni Gradd

MEng (Anrhydedd)
4 blynedd amser llawn **H601**

MEng (Anrhydedd)
4 blynedd gyda semester dramor (Rhyngwladol) **H607**

MEng (Anrhydedd)
5 mlynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant **H600**

MEng (Anrhydedd)
5 blynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant a semester dramor (Rhyngwladol) **A7N3**

BEng (Anrhydedd) 3 blynedd amser llawn **H605**

BEng (Anrhydedd)
4 mlynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant **H606**

Achrediad

Y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg (IET)

Gofynion Mynediad

MEng: AAB-ABB ar Safon Uwch. Rhaid iddo gynnwys Mathemateg.

BEng: ABB-BBB ar Safon Uwch. Rhaid iddo gynnwys Mathemateg.

I weld y graddau mynediad diweddaraf neu i weld gofynion mynediad eraill, fel BTEC, Bagloriaeth Ryngwladol ac ati, ewch i'r wefan: www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/courses/browse-by-school/school-of-engineering

Peirianeg Integredig



Mae'r radd mewn Peirianeg Integredig yn radd beirianeg eang sy'n ymdrin â llawer o agweddau ar beirianeg drydanol, electronig, fecanyddol a gweithgynhyrchu.

Trwy ddewis astudio Peirianeg Integredig, byddwch yn cymhwyso fel peirianeg o'r radd uchaf: bydd eich gwybodaeth eang am beirianeg yn sicrhau y gallwch ryngweithio â pheirianwyr o bob disgyblaeth beirianeg draddodiadol mewn unrhyw amgylchedd amlddisgyblaethol.

Peirianeg Integredig yng Nghaerdydd

Cynigir rhaglenni MEng a BEng: mae'r ddwy yn darparu'r safon academaidd sydd ei hangen ar sefydliadau peirianeg i fodloni'r gofynion addysgol ar gyfer Peirianeg Siartredig, ac mae'r MEng yn cynnig llwybr carlam i'r statws siartredig hwn. Mae'r rhaglenni gradd wedi'u hachredu gan Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol, y Sefydliad Peirianeg a Thechnoleg, a'r Sefydliad Ynni.

Lefel Un

Dyluniwyd y rhaglenni i sicrhau cysondeb a datblygiad deunyddiau drwy'r holl flynyddoedd o astudio. Yn ogystal, mae'r cysylltiadau cydweithredol cryf sydd gennym â'r diwydiant yn golygu y byddwch yn elwa ar gysylltu eich astudiaethau academaidd gyda realiti'r diwydiant.

Lluniwyd y rhaglenni gradd ar chwe phrif thema sy'n rhedeg bob blwyddyn; gosodir y sylfeini yn y flwyddyn gyntaf, cânt eu cryfhau yn yr ail ac yna ategir y rhain gan nifer o fodiwlau mecatroneg arbenigol ar ddiwedd Blwyddyn Dau.

Dyma'r chwe thema:

- ▶ Peirianeg Gwybodaeth
- ▶ Mecaneg Beirianyddol
- ▶ Peirianeg Drydanol ac Electronig
- ▶ Peirianeg Gweithgynhyrchu
- ▶ Astudiaethau Peirianeg Proffesiynol
- ▶ Integreiddio Astudiaethau

Mewn Peirianeg Gwybodaeth, byddwch yn astudio pynciau fel mathemateg, cyfrifiadura a dadansoddi data, yn ogystal â'r datblygiadau diweddaraf yn y maes hwn, a systemau sy'n seiliedig ar wybodaeth, sy'n cynnwys agweddau ar ddeallusrwydd artifisial a systemau arbenigol.

Mae Astudiaethau Proffesiynol yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau, o astudiaethau achos go iawn gyda phartneriaid diwydiannol sy'n cymryd rhan, i gyfraith, cyfrifyddu a rheolaeth ariannol yn y flwyddyn olaf. Gan mai nod peirianeg yw datblygu syniad i fod yn gynnyrch y gellir ei farchnata, byddwch yn dysgu am yr agweddau hanfodol o dechnoleg systemau gweithgynhyrchu a rheoli gweithgynhyrchu drwy gydol eich tair neu bedair blynedd o astudio.

Cydweithio Diwydiannol

Mae cydweithio diwydiannol yn hanfodol i'n rhaglenni gradd, ac mae gennym gysylltiad agos â nifer o gwmnïau cenedlaethol a rhyngwladol. Gwneir y cydweithio hwn mewn llawer o ffyrdd, fel nawdd a lleoliad diwydiannol, yn ogystal â chymorth addysgol drwy ddarparu astudiaethau achos ac offer. Trwy'r cysylltiadau hyn, byddwch yn dod yn gyfarwydd ag amrywiaeth o ddiwydiannau, gan fynd i'r afael â deunyddiau, gweithgynhyrchu, cyflenwi ynni, gweithgynhyrchu cydrannau a gweithgynhyrchu systemau uwch. Bydd y cydweithio hwn ac ehangder yr wybodaeth beiranyddol yn rhoi cyfleoedd swydd ardderchog i chi pan fyddwch yn graddio, gan arwain at ddewis hyblyg o yrfaedd.

Mae gan yr holl staff academaidd, nifer ohonynt yn Beirianwyr Siartredig, eu diddordebau a'u harbenigeddau ymchwil eu hunain, ac mae llawer wedi gweithio i gwmnïau fel Rolls-Royce, ICI a Shell. Caiff gwaith ymchwil yr Ysgol Peirianeg ei gydnabod yn gyson fel ymchwil o safon uchel iawn, ac er na fyddwch o bosibl yn meddwl bod hyn yn berthnasol i chi'n uniongyrchol wrth i chi ddod i mewn i'r Brifysgol fel myfyriwr israddedig, mae sylfaen ymchwil gref yn golygu bod y rhaglenni wedi'u hintegreiddio'n agos â'r diwydiant ac yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf.

Rhagor o wybodaeth:
www.cardiff.ac.uk/cy/engineering

Cysylltwch â:

Dr Sian Armstrong

Ffôn: 029 2087 9999

E-bost: engineering-ug@caerdydd.ac.uk



Myfyriwr yn gweithio ar gerbydau awtonomaidd heb yrrwr



Prifysgol Caerdydd yw un o'r prifysgolion prin yn y DU sy'n aelodau o Sefydliad Sgiliau Electroneg y DU (UKESF) a'r Power Academy. Mae'r sefydliadau hyn wedi'u sefydlu i fynd i'r afael â'r prinder sgiliau yn y meysydd hyn.

Maen nhw'n darparu cymorth gyda chost astudio drwy ysgoloriaethau a chyfleoedd datblygu proffesiynol i fyfyrwyr sy'n astudio rhaglenni gradd sy'n ymwneud â Pheirianeg Drydanol ac Electronig. Gweler conferences.theiet.org/power-academy am ragor o wybodaeth am y Power Academy, ac www.ukesf.org/scholarship-scheme am wybodaeth ynghylch Sefydliad Sgiliau Electroneg y DU.

Rhaglenni Gradd

MEng (Anrhydedd)
4 blynedd amser llawn **H113**

MEng (Anrhydedd)
4 blynedd gyda semester dramor (Rhyngwladol) **H118**

MEng (Anrhydedd)
5 mlynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant **H114**

MEng (Anrhydedd)
5 mlynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant a semester dramor (Rhyngwladol) **5A7D**

MEng (Anrhydedd)
5 mlynedd gyda Blwyddyn yn Ewrop **H115**

BEng (Anrhydedd)
3 blynedd amser llawn **H110**

BEng (Anrhydedd)
4 mlynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant **H111**

Achrediad

Y Sefydliad Peirianeg a Thechnoleg (IET)

Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol (IMechE)

Y Sefydliad Ynni (EI)

Gofynion Mynediad

MEng: AAA-AAB ar Safon Uwch. Rhaid iddo gynnwys Mathemateg.

BEng: AAB-ABB ar Safon Uwch. Rhaid iddo gynnwys Mathemateg.

I weld y graddau mynediad diweddaraf neu i weld gofynion mynediad eraill, fel BTEC, Bagloriaeth Ryngwladol ac ati, ewch i'r wefan: www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/courses/browse-by-school/school-of-engineering



Peirianeg Fecanyddol



Mae Peirianeg Fecanyddol yn defnyddio gwyddoniaeth ac arbenigedd yn greadigol i ddylunio, adeiladu a gweithredu cynhyrchion a phrosesau. Mae Peirianwyr Mecanyddol yn cyfuno dychymyg a thechnoleg fodern i gynnig datrysiadau arloesol er mwyn bodloni gofynion cymhleth cymdeithas a'r diwydiant.

Ym mhob rhan o'r diwydiant, mae Peirianwyr Mecanyddol Siartredig yn datblygu cynhyrchion sydd wedi'u dylunio'n dda, yn eu gweithgynhyrchu drwy brosesau effeithlon ac yn eu gwerthu'n fedrus mewn marchnadoedd byd-eang.

Peirianeg Fecanyddol yng Nghaerdydd

Mae ein graddau MEng a BEng wedi'u hachredu gan Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol a'r Sefydliad Ynni, sy'n caniatáu i'ch gyrfa ddatblygu'n llyfn i statws proffesiynol ar ôl i chi ennill eich gradd. Mae ansawdd ein rhaglenni'n golygu ein bod yn denu myfyrwyr â chymwysterau da.

Mae gan yr holl staff academaidd eu diddordebau a'u harbenigeddau ymchwil eu hunain, ac mae llawer wedi gweithio i gwmnïau fel Rolls-Royce, ICI a Shell. Caiff gwaith ymchwil yr Ysgol ei gydnabod yn gyson fel ymchwil o

safon uchel iawn yn rhyngwladol, ac er na fyddwch o bosibl yn meddwl bod hyn yn berthnasol i chi'n uniongyrchol wrth i chi ddod i mewn i'r Brifysgol fel myfyriwr israddedig, mae sylfaen ymchwil gref yn golygu bod y rhaglenni wedi'u hintegreiddio'n agos â'r diwydiant ac yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf.

Os byddwch yn dewis astudio yng Nghaerdydd, byddwn yn gwneud pob ymdrech i sicrhau eich bod yn mwynhau pob agwedd ar eich bywyd fel myfyriwr, a'ch bod yn gadael wedi cyrraedd eich potensial academaidd.


Cyflogaeth

Mae'r rhagolygon cyflogaeth i Beirianwyr Mecanyddol o Gaerdydd yn rhagorol, gyda'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod y mwyafrif helaeth yn dilyn eu llwybrau gyrfa dewisol o fewn chwe mis i raddio. Mae nifer fawr o raddedigion yn gweithio ym maes dylunio cynhyrchion i ddiwydiannau

modurol, awyrenegol, cyfathrebiadau ac ynni. Caiff rhai eu cyflogi ym maes peirianeg feddygol, eraill yn teithio'r byd ar ran y diwydiant petrocemegol, a rhai'n ymwneud â meysydd datblygu, cynhyrchu a rheoli cyffredinol. Mae rhai yn dewis defnyddio'u graddau fel cymhwyster i'w galluogi i weithio mewn disgyblaethau eraill. Mae'r rhai hynny sydd wedi dilyn y llwybr hwn fel arfer yn gweithio yn y Lluoedd, y sector ariannol, y proffesiwn cyfreithiol, cyfrifyddiaeth siartredig neu gyfrifiadura. Gyda safon mor uchel a chyfluoedd mor eang, mae gyrfa mewn Peirianeg Fecanyddol yn amrywiol, yn heriol ac yn wobrwylol.

Strwythur y Rhaglen

Dyluniwyd y rhaglen radd mewn Peirianeg Fecanyddol yn yr Ysgol Peirianeg i roi cymaint â phosibl o hyblygrwydd i chi, gan ddarparu addysg beirianyddol eang o'r safon uchaf. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau asesu



yn y modiwlau: gwaith cwrs, asesiad parhaus ac arholiadau. Ym mlynnyddoedd un a dau, bydd myfyrwyr yn datblygu dealltwriaeth drwyadl o ddisgyblaethau mecanyddol sylfaenol fel dynameg, mecaneg hylif, thermodynameg, dylunio, deunyddiau, mecaneg gadarn, peiriannau statig a rheoli. Cefnogir y modiwlau hyn gan astudiaethau mewn mathemateg, cyfrifiadura, peirianeg drydanol, gweithgynhyrchu ac astudiaethau peirianeg proffesiynol. Mae prosiectau dylunio ac ymarferion labordy yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr ymarfer ac integreiddio'r holl sgiliau a ddysgwyd.

Caerdydd yw un o'r prifysgolion traddodiadol prin sy'n cynnig rhaglen ryngosod. Ar y rhaglen hon, bydd myfyrwyr yn treulio eu trydedd flynedd yn cael profiad diwydiannol, sy'n ehangu perthnasedd yr addysgu yn y blynnyddoedd olaf. Bydd myfyrwyr yn derbyn cyflog llawn yn ystod eu lleoliad diwydiannol.

Yn ystod trydedd flynedd y rhaglen BEng, cynigir amrywiaeth eang o bynciau arbenigol fel triboleg, astudiaethau ynni, peiriannau neu

astudiaethau iaith pellach fel opsiynau, yn ogystal â'r elfennau sylfaenol.

Bydd myfyrwyr yn dewis modiwlau yn ôl eu gofynion penodol. Yn ystod y cyfnod hwn, mae dylunio'n parhau i fod yn agwedd bwysig ar strwythur y rhaglen radd.

Elfen bwysig arall yn ystod y flwyddyn hon yw'r prosiect unigol, sy'n gallu bod yn seiliedig ar ddylunio, gwaith ymchwil neu'n ddiwydiannol.

Bydd myfyrwyr yn gwneud prosiect unigol lle byddant yn gwneud gwaith ymchwil ac yn rheoli a chyflwyno adroddiad i'w asesu. Er ein bod yn annog myfyrwyr i gymryd perchnogaeth o'u prosiectau, enwebir goruchwyliwr academiaidd i ddarparu arweiniad ac anogaeth.

Yn nhrydedd a phedwaredd flwyddyn y rhaglen MEng, bydd myfyrwyr yn dilyn opsiynau mwy arbenigol mewn meysydd fel roboteg, systemau arbenigol, biobeirianeg, rheoli ynni ac asesu risgiau/perylglon. Caiff prosiectau ac aseiniadau dylunio grŵp hefyd eu cyflawni er mwyn darparu hyfforddiant eang mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau

sy'n bwysig i'r diwydiant, gan gynnwys rheoli prosiect, datrys problemau a gwneud penderfyniadau, yn ogystal â dylunio dadansoddol o'r safon uchaf.

Mae nifer o'n prosiectau grŵp yn y bedwaredd flwyddyn yn amlddisgyblaethol. Byddwch yn gweithio ochr yn ochr â myfyrwyr peirianeg o bob rhan o'r Ysgol ar brosiectau peirianeg go iawn.

Rhaglenni Gradd

MEng (Anrhydedd)
4 blynedd amser llawn **H302**

MEng (Anrhydedd)
4 blynedd gyda semester dramor (Rhyngwladol) **H309**

MEng (Anrhydedd)
5 mlynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant **H307**

MEng (Anrhydedd)
5 mlynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant a semester dramor (Rhyngwladol) **U8A6**

MEng (Anrhydedd)
5 mlynedd gyda Blwyddyn yn Ewrop **H308**

BEng (Anrhydedd)
3 blynedd amser llawn **H300**

BEng (Anrhydedd)
4 mlynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant **H301**

Achrediad

Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol
Y Sefydliad Ynni

Gofynion Mynediad

MEng: AAA-AAB ar Safon Uwch.
Rhaid iddo gynnwys Mathemateg.

BEng: AAB-ABB ar Safon Uwch.
Rhaid iddo gynnwys Mathemateg.

I weld y graddau mynediad diweddaraf neu i weld gofynion mynediad eraill, fel BTEC, Bagloriaeth Ryngwladol ac ati, ewch i'r wefan:
www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/courses/browse-by-school/school-of-engineering

Rhagor o wybodaeth:
www.cardiff.ac.uk/cy/engineering

Cysylltwch â:
Dr Mark Eaton

Ffôn: 029 2087 9999

E-bost: engineering-ug@caerdydd.ac.uk

Peirianeg Feddygol



Mae Peirianeg Feddygol yn faes astudio cymharol newydd i israddedigion. Y cwrs gradd yng Nghaerdydd yw un o'r cyrsiau mwyaf sefydledig yn y DU. Mae wedi'i gynllunio i apelio at fyfyrwyr sy'n dymuno cyfuno hyfforddiant peiranyddol clasurol â chymhwysiad meddygol.

Peirianeg Feddygol

Mae myfyrwyr yn elwa ar addysg gan dîm ymroddgar o staff academiaidd sy'n ymchwilio'n barhaus, ac yn cael darlithoedd gan gydweithwyr o'r Ysgol Biowyddorau, yr Ysgol Feddyginiaeth ac Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro. Nod y rhaglen yw cynhyrchu peirianydd hynod fedrus sy'n gallu dilyn gyrfa mewn meysydd peirianeg glinigol, biobeirianegol neu beirianeg y tu allan i feddygaeth.

Cyfleoedd Gwaith

Gall graddedigion mewn peirianeg feddygol elwa ar gyfleoedd gwaith yn y sector peirianeg feddygol yn ogystal â'r sector peirianeg fecanyddol ehangach. Mae graddedigion diweddar o Brifysgol Caerdydd yn cael eu cyflogi nawr gan gwmnïau peirianeg feddygol fel Finsbury Orthopaedics, DePuy International a Huntleigh Medical. Gall peirianwyr meddygol hefyd fynd ar ôl gyrfa yn y sector gofal iechyd. Mae graddedigion Caerdydd yn cael swyddi'n rheolaidd ar y cynllun hyfforddi cystadleuol iawn i Beirianwyr/Gwyddonwyr Clinigol (ewch i www.ipem.org.uk am ragor o fanylion), ac mae myfyrwyr eraill wedi defnyddio'u gradd fel rhagarweiniad

i alwedigaethau eraill. Mae cyfleoedd di-ri hefyd ar gael ym mhob cwr o'r byd i wneud astudiaethau ôl-radd, ac mae llawer o raddedigion wedi ennill Doethur mewn Athroniaeth (PhD). Mae myfyrwyr hefyd wedi mynd am arbenigedd pellach drwy astudio'r cymhwyster Meistr yn y Gwyddorau (MSc). Mae graddio gyda gradd achrededig IMechE hefyd yn caniatáu i fyfyrwyr weithio o fewn y sector peirianeg fecanyddol. Mae gan beirianwyr graddedig sgiliau rhifydddeg ardderchog ac o ganlyniad mae galw mawr amdanynt mewn nifer o feysydd eraill fel cyfrifyddiaeth, cyllid, llywodraeth ac addysg, felly i'r rhai hynny sy'n dymuno dilyn llwybr gyrfaol i ffwrdd o beirianeg, mae amrywiaeth o gyfleoedd cyffrous eraill ar gael.

Strwythur y Rhaglen

Mae pob blwyddyn academiaidd yn cynnwys modiwlau, ac mae cynnwys y rhain yn gwneud cyfanswm o 120 o gredydau; cyflwynir 60 o gredydau bob semester.

Blynnyddoedd Un a Dau

Nod Blwyddyn Un yw sicrhau bod myfyrwyr yn datblygu gwybodaeth sylfaenol am yr holl bynciau perthnasol. Cyflwynir damcaniaethau o fewn

darlithoedd a chaiff y rhain eu cefnogi gan fodiwl dwbl penodedig o arbrofion labordy sy'n para am un rhan o chwech o'r flwyddyn. Ym Mlwyddyn Dau, dechreuir cymhwyso'r wybodaeth am beirianeg i gymwysiadau meddygol, gan barhau i ddatblygu'r damcaniaethau sylfaenol a ddysgwyd ym Mlwyddyn Un. Yn ogystal â hyn, cyflwynir modiwlau Anatomeg a Ffisioleg penodedig yn ystod y ddwy flynedd er mwyn sicrhau bod gan y myfyrwyr ddigon o ehangder a dyfnder o wybodaeth.

Blwyddyn mewn Diwydiant

Mae'r cynllun Blwyddyn mewn Diwydiant yn caniatáu i fyfyrwyr weithio mewn swydd â chyflog mewn cwmni am oddeutu 12 mis; mae hyn yn digwydd rhwng blynnyddoedd dau a thri, a bydd y myfyrwr yn ennill sgiliau a allai arwain at ddyfarniad cymhwyster City & Guilds. Mae'r Brifysgol yn mynd ati i gynorthwyo myfyrwyr i ddod o hyd i swydd o'r fath, ac mae cydweithrediad wedi'i sefydlu gyda chwmnïau peirianeg feddygol cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys Biomet, Arup, Huntleigh Technology, Gyrus Medical a Finsbury Orthopaedics. Mae cyfleoedd hefyd yn bodoli ar gyfer lleoliadau haf.

Blwyddyn Tri

Mae Blwyddyn Tri wedi'i strwythuro o amgylch rhoi cyfle i fyfyrwyr integreiddio eu gwybodaeth feddygol a pheirianyddol, wrth iddynt fynd i'r afael â nifer o heriau clinigol realistig drwy gydol amrywiaeth o fodiwlau cymhwysol. Caiff 25 y cant o'r flwyddyn academaidd hon hefyd ei neilltuo i'r Prosiect Unigol, lle y bydd fyfyrwyr yn dewis maes ymchwil o ddiddordeb iddynt ac yna'n cynnal cyfnod o astudiaeth dan arweiniad. Dyma rai prosiectau diweddar: Cysylltu Lluniau o'r Ymennydd gyda Dadansoddiad o Symudiadau; Modelu Cyfrifiadurol o Lif Gwaed mewn Ymlediad yn yr Ymennydd; Anafiadau Pêl-droed ar ôl Bwrw'r Ddaear; Dadansoddiad Biomecanyddol o Syndrom Ysgwyd Baban.

Blwyddyn Pedwar

Mae un hanner o Flwyddyn Pedwar yn ymwneud â gweithio mewn grwpiau i fynd i'r afael â dau brosiect ymchwil peirianeg feddygol mawr. Caiff nifer o fodiwlau peirianeg feddygol arbenigol (e.e. biomecaneg chwaraeon, peirianeg fforensig) eu cyflwyno hefyd sydd wedi'u halinio â diddordebau ymchwil allweddol staff academaidd.

Gweithgareddau Ymchwil

Mae staff peirianeg feddygol yr Ysgol Peirianeg yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau ymchwil sy'n ategu eu hymrwymadau addysgu. Dyma rai gweithgareddau allweddol diweddar:

- ▶ Dyfarnwyd grant ymchwil o £2 miliwn gan Arthritis Research UK
- ▶ Sefydlwyd grwpiau ymchwil trawsddisgyblaethol yn y meysydd canlynol: Biomecaneg Bediatrig; Croen; Biomecaneg Ysgwyddau; Peirianeg a Thrwsio Meinweoedd
- ▶ Gwaith ymchwil ar fiomecaneg chwaraeon mewn partneriaeth ag athletwyr proffesiynol
- ▶ Cyflwyno gwaith ymchwil mewn cynadleddau mawr cenedlaethol a rhyngwladol

Mae integreiddio gwaith ymchwil yn yr addysgu yn sicrhau bod fyfyrwyr Caerdydd yn graddio ar frig peirianeg feddygol, gan felly yn eu gwneud mor gyflogadwy â phosibl.



Prosiect biomecaneg chwaraeon, yn ymchwilio i drawiadau'r pen ar gaeau artiffisial

Rhaglenni Gradd

MEng (Anrhydedd)
4 blynedd amser llawn **H1BV**

MEng (Anrhydedd)
4 blynedd gyda semester dramor (Rhyngwladol) **H2BV**

MEng (Anrhydedd)
5 mlynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant **HB99**

MEng (Anrhydedd)
5 mlynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant a semester dramor (Rhyngwladol) **P2R4**

BEng (Anrhydedd)
3 blynedd amser llawn **H1B8**

BEng (Anrhydedd)
4 mlynedd gyda Blwyddyn mewn Diwydiant **BH99**

Achrediad

Sefydliad y Peirianwyr
Mecanyddol (IMEchE)

Gofynion Mynediad

MEng: AAA-AAB ar Safon Uwch.
Rhaid iddo gynnwys Mathemateg.

BEng: AAB-ABB ar Safon Uwch.
Rhaid iddo gynnwys Mathemateg.

I weld y graddau mynediad diweddaraf neu i weld gofynion mynediad eraill, fel BTEC, Bagloriaeth Ryngwladol ac ati, ewch i'r wefan:
www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/courses/browse-by-school/school-of-engineering

Rhagor o wybodaeth:
www.cardiff.ac.uk/cy/engineering

Cysylltwch â:
Dr Mark Eaton

Ffôn: 029 2087 9999

E-bost: engineering-ug@caerdydd.ac.uk



Cwestiynau Cyffredin





Beth yw'r gwahaniaethau rhwng rhaglenni gradd yr MEng a'r BEng?

Yr ateb syml fyddai: un flwyddyn ychwanegol o astudio. Mae'r radd MEng achrededig yn llwyr fodloni adran y gofynion hyfforddi academiaidd sydd ei hangen ar y ffordd i fod yn Beiriannydd Siartredig. Mae'r modiwlau a gyflwynir yn nwy flynedd olaf y rhaglen MEng ar lefel uwch na'r rhai hynny ar y rhaglen BEng, o ran y ffaith fod ganddynt fwy o elfennau sy'n seiliedig ar ymchwil, mwy o agweddau sy'n seiliedig ar reoli, lefel uwch o gynnwys technegol neu gyfuniad o'r rhain.

Pa mor hawdd yw hi i drosglwyddo o raglen radd BEng i MEng?

Mae trosglwyddo'n hawdd iawn os ydych yn perfformio'n dda: bydd angen i chi ennill marc cyffredinol o 60% ar gyfer eich asesiadau ym Mlwyddyn Un a Dau. Hyd at y pwynt hwn, bydd pob agwedd ar eich addysg wedi bod yn gwmws yr un peth â'r myfyrwyr MEng, ac os byddwch yn cyrraedd y targed o 60%, byddwch yn cael eich annog i symud ymlaen i'r rhaglen MEng. Fodd bynnag, os byddwch yn credu y byddai symud o raglen MEng i BEng yn fwy priodol i'ch gobeithion gyrfaol, gall hyn gael ei drefnu'n hawdd hefyd.

Pa bynciau Safon Uwch sydd eu hangen arnaf i astudio Peirianeg?

Mae'r Ysgol yn gofyn am Safon Uwch mewn Mathemateg ac o leiaf dwy Safon Uwch arall, a allai gynnwys amrywiaeth o bynciau. Mae bynciau fel Ffiseg a Mathemateg Bellach yn werthfawr, ond byddem yn derbyn unrhyw bwn Safon Uwch fel Seicoleg neu Hanes, ond nid ydym yn derbyn Astudiaethau Cyffredinol.

A fyddaf yn cael fy nghyfweld?

Ein polisi cyffredinol yw gwahodd pob ymgeisydd sy'n byw o fewn pellter teithio rhesymol i Gaerdydd i ymweld â'r Ysgol, cwrdd â'r staff a'r myfyrwyr, a siarad â'r tiwtoriaid derbyniadau perthnasol. Drwy wneud hyn, gobeithir y gallwch wedyn wneud dewis gwybodus ynghylch ble rydych eisiau astudio.

A yw'r Brifysgol yn dod o hyd i leoliad diwydiannol addas i mi ar gyfer fy mlwyddyn allan?

Byddwn yn eich helpu i ddod o hyd i leoliad trwy ein cysylltiadau cryf â'r diwydiant, a chyda rhestr o gwmnïau cymeradwy. Fodd bynnag, bydd croeso i chi hefyd ddefnyddio'ch cysylltiadau eich hun er mwyn sicrhau bod eich gobeithion yn cyd-fynd mor agos â phosibl â busnes y cwmni. Cyn i chi ddechrau eich blwyddyn ar leoliad, byddwch yn cael cynnig cyngor ac arweiniad ar lunio eich CV, a gweithgareddau eraill a fydd yn eich helpu yn y byd corfforaethol.



Sut byddaf yn cael fy ariannu yn ystod fy Mlwyddyn mewn Diwydiant?

Bydd y cwmni'n eich talu'n uniongyrchol. Y cyflog blynyddol cyffredinol i fyfyrwyr sy'n gweithio yn y diwydiant ar hyn o bryd yw £15 mil, ond mae rhai cwmnïau'n cynnig cymaint ag £20 mil. Weithiau, bydd y cwmnïau'n cynnig rhyw fath o nawdd i'r myfyrwyr pan fyddant yn dychwelyd i'r Brifysgol.

Pa gymwysterau mynediad sydd eu hangen arnaf i dreulio blwyddyn yn Ewrop?

Nid oes angen i chi fod yn rhugl yn Ffrangeg, Almaeneg na Sbaeneg i wneud cais ar gyfer y radd gyda blwyddyn yn Ewrop. Byddwch yn cael cyfle i wella eich rhuglder drwy fodiwlau iaith yn ystod tair blynedd gyntaf eich gradd. Fodd bynnag, bydd angen gwybodaeth sylfaenol o'r iaith briodol – er enghraifft, o leiaf gradd C mewn TGAU yn yr iaith briodol ar gyfer eich gwlad ddewisol.

Nodiadau i Fyfyrwyr Rhyngwladol



Rhaid gwneud pob cais ar gyfer rhaglenni astudio israddedig yng Nghaerdydd drwy UCAS (www.ucas.ac.uk). Gallwch gael gwybodaeth am sut i wneud cais ac addasrwydd eich cymwysterau gan naill ai:

- ▶ Eich British Council lleol
- ▶ Eich ysgol/coleg
- ▶ Cynghorydd addysg leol y Brifysgol

Cynghorwyr Addysg Rhyngwladol Prifysgol Caerdydd

Mae'r Swyddfa Ryngwladol yn gweithio mewn cydweithrediad â chynghorwyr addysg lleol mewn gwledydd amrywiol. Mae'r rhain yn gallu bod yn ffynhonnell leol o gymorth i fyfrwyr wrth wneud cais i astudio yng Nghaerdydd. Mae gennym gynghorwyr mewn llawer o wledydd.

Gellir cael manylion llawn yn: www.cardiff.ac.uk/cy/international

Cymorth i Fyfrwyr Rhyngwladol Gwasanaeth Casglu Coets a Rhaglen Ymsefydlu

Mae'r Swyddfa Ryngwladol yn darparu gwasanaeth casglu coets a rhaglen ymsefydlu i fyfrwyr rhyngwladol yn ystod yr wythnos cyn cofrestru. Mae'r gwasanaeth casglu coets, sy'n rhedeg dros ddau ddiwrnod, yn casglu myfyrwyr newydd o feysydd awyr Caerdydd a Heathrow ac yn mynd â nhw i'r campws.

Mae'r Rhaglen Ymsefydlu sy'n dilyn yn cynnwys Ffair Wybodaeth, cyfarfodydd cymdeithasol a theithiau tywysedig i atyniadau lleol. Dyluniwyd y rhaglen i helpu myfyrwyr rhyngwladol newydd i deimlo'n gartrefol yn gyflym, i wneud ffrindiau newydd ac i ymdrin ag unrhyw anawsterau cychwynnol.

I gael manylion pellach, ewch i: www.cardiff.ac.uk/cy/new-students/before-you-arrive/international-students?utm_source=linkfixer&utm_medium=redirect&utm_campaign=%2Farrive

Rhaglenni Iaith Saesneg

Mae'r swyddfa Rhaglenni Iaith Saesneg yn cynnig cyrsiau i baratoi ymgeiswyr o dramor ar gyfer rhaglenni gradd ac yna'n eu cefnogi yn ystod eu hastudiaethau academaidd. Cynigir cyrsiau sgiliau iaith ac astudio drwy gydol y flwyddyn o ychydig o wythnosau ar y tro i flwyddyn gyfan, er mwyn gwella eich iaith Saesneg gyffredinol ac academaidd.

Rhaglen Astudio Saesneg ar gyfer Prifysgol

Mae hwn yn gwrs amser llawn i ymgeiswyr o Ewrop a thramor sy'n ystyried, neu'n bwriadu, mynd i Brifysgol Caerdydd neu brifysgol arall yn y DU i wneud astudiaethau israddedig neu ôl-raddedig. Mae'r rhaglen yn rhoi'r sgiliau a'r iaith sydd eu hangen ar bob myfyrwr i symud yn ddifffwdan i astudiaethau academaidd. Derbynnir perfformiad cryf ym mhrawf ymadael y rhaglen i gael mynediad i astudiaethau israddedig ac ôl-raddedig ym Mhrifysgol Caerdydd.

Mae myfyrwyr ar y Rhaglen Astudio Saesneg ar gyfer Prifysgol yn derbyn amrediad o wasanaethau am ddim, yn unol ag argaeledd:

- ▶ Cwnsela ar wneud cais i Brifysgol Caerdydd
- ▶ Cyfleoedd i ymweld ag ysgolion y Brifysgol
- ▶ Defnydd o lyfrgelloedd y Brifysgol ar gyfer gwaith ymchwil
- ▶ Defnydd o weithfannau cyfrifiadurol y Brifysgol

Cyrsiau Saesneg Cyn-sesiynol

Rhaglen Saesneg ddwys, amser llawn dros yr haf yw'r cwrs Saesneg Cyn-sesiynol, sydd wedi'i ddylunio'n benodol i fyfrwyr rhyngwladol sydd wedi cael cynigion o le gan Brifysgol Caerdydd.

Gellir cael manylion llawn pob un o'n cyrsiau yn: www.cardiff.ac.uk/cy/study/international/english-and-foundation-programmes/english-language-programmes

Canolfan Arholi

Mae Prifysgol Caerdydd yn un o ganolfannau arholi swyddogol IELTS. Gellir cael manylion llawn yr holl gyrsiau, gan gynnwys dyddiadau a ffioedd, a dyddiadau arholiadau IELTS gan y canlynol yn ôl y gofyn:


E-bost: ielts@caerdydd.ac.uk
Ffôn: +44 (0)29 2087 9156
Gwe: www.cardiff.ac.uk/cy/ielts

Gofynion Iaith Saesneg

Os ydych chi'n ymgeisydd nad yw'n siarad Saesneg fel iaith gyntaf, bydd angen i chi brofi fod gennych safon o Saesneg, ar lafar ac yn ysgrifenedig, sy'n eich galluogi i elwa'n llawn ar y darlithoedd, y seminarau a'r tiwtorialau.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â:

Y Swyddfa Derbyniadau Peirianeg
E-bost: engineering-ug@caerdydd.ac.uk
Ffôn: +44 (0)29 2087 4656



Mae'r Rhaglenni Iaith Saesneg yn cynnig cyrsiau i baratoi ymgeiswyr o dramor ar gyfer rhaglenni gradd ac yna'n eu cefnogi yn ystod eu hastudiaethau academaidd.

Derbyn Myfyrwyr

Er mwyn cael eich ystyried i gael mynediad i'r cwrs, dylech ymgeisio ar-lein drwy wefan UCAS gan ddefnyddio'r cyfleuster 'UCAS Apply'.

I wneud hynny, bydd angen i chi fewngofnodi i: www.ucas.ac.uk/apply

Bydd y wefan yn rhoi gwybodaeth i chi am sut i wneud cais ac yn egluro'r weithdrefn. Dylid cwblhau ceisiadau erbyn 15 Ionawr.

Ar ôl i ni gael eich cais a'i ystyried, efallai y byddwn yn eich gwahodd i ymweld â'r Ysgol rywbryd rhwng mis Tachwedd a dechrau mis Mawrth. Ni fydd cyfweiliad ffurfiol, ond bydd taith dywysedig o gwmpas yr Ysgol a'r ddinas. Byddwch yn cwrdd â myfyrwr a staff, gan roi cyfle i ni ddod i wybod mwy amdanoch chi a'ch galluogi chi i ddod i wybod sut beth yw bywyd fel myfyriwr peirianeg yng Nghaerdydd.

Nifer o leoedd sydd ar gael yn y flwyddyn gyntaf fel arfer: **280**

Nifer y ceisiadau fel arfer: **2,500**

Cyfleoedd Cyfartal

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei holl arferion a'i gweithgareddau, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr. Nod y Brifysgol yw sefydlu diwylliant cynhwysol sy'n croesawu ymgeiswyr o bob oed, ethnigrwydd, anabledd, patrwm teuluol, rhywedd, cenedligrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, hil, cred grefyddol neu gred arall, a chefnidir economaidd gymdeithasol, a sicrhau bod cyfle cyfartal iddyn nhw. Mae'r ymrwymiad hwn yn rhan o'r Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, sydd i'w weld yn: www.cardiff.ac.uk/cocom/equalityanddiversity/index.html

Ymgeiswyr ag Anableddau/Anghenion Penodol

Gwneir pob cynnig i astudio ym Mhrifysgol Caerdydd ar sail teilyngdod academiaidd yn unig. Pan fydd gan ymgeiswyr ofynion penodol sy'n ymwneud ag anabledd neu gyflwr meddygol, fe'u hanogir i drafod y rhain gyda staff perthnasol er mwyn gallu gwneud trefniadau priodol i sicrhau bod y Brifysgol yn darparu amgylchedd hygrych. Yn benodol, gwahoddir ymgeiswyr i gysylltu â'r Cynghorydd Anabledd i gael gwybod am y drefn ymgeisio, cyflwyno'r

cyrsiâu a mynediad at yr amgylchedd ffisegol. Os bydd hi'n briodol, gellir trefnu ymweliadau anffurfiol er mwyn i ymgeiswyr allu gweld y llety a chyfarfod â'r staff academiaidd.

Gellir cysylltu â'r Cynghorydd Anabledd yn: Canolfan Cymorth Myfyrwyr
50 Plas y Parc, Caerdydd CF10 3AT
Ffôn/Minicom: **+44 (0)29 2087 4844**
E-bost: studentsupportcentre@caerdydd.ac.uk

Nodiadau i Ymgeiswyr Cymraeg eu Hiaith

Deallwn os ydych yn siarad Cymraeg y gallai fod yn well gennych siarad â thiwtor personol sy'n medru'r Gymraeg. Fe wnawn ein gorau glas i wneud yn siŵr eich bod yn cael rhywun sy'n siarad Cymraeg cyn belled â bod aelodau staff sy'n siarad Cymraeg yn eich maes dewisol. Os ydych yn dymuno, gallwch hefyd gyflwyno gwaith i'w asesu a sefyll eich arholiadau yn Gymraeg, waeth beth fo iaith addysgu'r cwrs rydych yn ei ddilyn. Mae rhannau o'r llety myfyrwyr yn Nhal-y-bont a Llys Senghennydd wedi'u neilltuo ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg sy'n dymuno bod gyda'i gilydd. Os hoffech fanteisio ar hyn, nodwch hyn ar eich cais am lety.

Diwrnodau Agored

Mae'r Ysgol Peirianeg yn cymryd rhan weithredol yn Niwrnodau Agored blynyddol y Brifysgol, sy'n cael eu cynnal drwy gydol y flwyddyn. Yn ystod y diwrnod hwn, gallwch ymweld â'r Ysgol a gweld sut fydd hi i astudio yng Nghaerdydd dros och eich hun.

Gallwch ymweld â'n theatrau darlithio yn ogystal â'n labordai a llyfrgelloedd modern, llawn adnoddau. Byddwch hefyd yn gallu gweld y cyfleusterau cyffredinol a gynigir gan y Brifysgol, gan gynnwys Undeb y Myfyrwyr, nifer o Neuaddau Preswyl, a'r cyfleusterau chwaraeon a chymdeithasol sy'n gwneud Caerdydd yn lle gwyh i astudio. Byddwch yn cael y cyfle i siarad â'r staff a'r myfyrwyr, a fydd yn gallu ateb unrhyw gwestiynau penodol y gallai fod gennych ynghylch y drefn dderbyn, y cyfleoedd amrywiol ar gyfer astudiaethau Ewropeaidd, y gweithgareddau chwaraeon ac adloniant, y cyfleusterau cyfrifiadura a llyfrgell, ac ati.

Os hoffech ragor o wybodaeth am y Diwrnod Agored, dylech gysylltu â:

Swyddfa Gyswilt Ysgolion a Cholegau

Ffôn: **+44 (0)29 2087 4455**
Ffacs: **+44 (0)29 2087 4457**

E-bost: openday@caerdydd.ac.uk
Gwe: www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/open-days-visits

I gael rhagor o wybodaeth

Ffôn: **+44 (0)29 2087 4656**
Ffacs: **+44 (0)29 2087 5902**

E-bost: engineering-ug@caerdydd.ac.uk
Gwe: www.cardiff.ac.uk/cy/engineering

Ffioedd Dysgu a Chymorth Ariannol

Mae'r Brifysgol yn codi ffi flynyddol sy'n talu am yr holl ffioedd dysgu, cofrestru ac arholi heb law ffi ailsefyll arholiadau gan fyfyrwyr nad ydynt wedi'u cofrestru ar hyn o bryd. Sylwch fod y ffioedd am lety ym Mhreswylfeydd y Brifysgol yn ychwanegol at hynny.

Gweler y wefan ganlynol am ragor o wybodaeth: www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/tuition-fees

Ysgoloriaethau a Bwsariaethau

Am ragor o wybodaeth, ewch i'r wefan a ganlyn: www.cardiff.ac.uk/cy/study/undergraduate/funding/scholarships

Gwefannau defnyddiol i gael gwybod am ffioedd dysgu a chymorth ariannol:

Gwefan Prifysgol Caerdydd:
www.caerdydd.ac.uk/ffioedd

Gwefan y Ganolfan Cymorth Myfyrwyr:
www.cardiff.ac.uk/studentsupport

Tudalennau gwe Cymorth Myfyrwyr yr Adran Addysg a Sgiliau:
www.dfes.gov.uk/studentsupport/


Tudalennau gwe Cyllid Myfyrwyr Cynulliad Cymru: www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk/

Tudalennau gwe Cyllid Myfyrwyr Lloegr:
www.studentfinanceengland.co.uk

Tudalennau gwe'r Cwmni Benthyciadau i Fyfrwyr: www.slc.co.uk



Mae cyfleoedd di-ri i ymweld â'r Brifysgol



Allwedd

- Ysgol Peirianeg
- Y Brifysgol ac Adeiladau'r GIG
- Preswylfeydd i Fyfrwyr

Telerau ac Amodau

Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod yr wybodaeth sydd yn y llyfryn hwn yn gywir pan aeth i'r wasg. Fodd bynnag, nid yw'r Brifysgol yn atebol am unrhyw wallau a allai fod ynddo, neu am unrhyw newidiadau dilynol i bolisi'r Brifysgol neu Lywodraeth a allai effeithio ar yr wybodaeth a roddir. Noda Prifysgol Caerdydd yn ffurfiol nad yw'n cynnwys unrhyw sylwadau neu warantau (boed wedi'u mynegi neu eu hawgrymu), yn ogystal â phob atebolrwydd, gan gynnwys niwed uniongyrchol, anuniongyrchol, penodol, damweiniol neu ganlyniadol, sy'n deillio o ddefnyddio'r wybodaeth ar y tudalennau hyn, hyd at y graddau eithaf sy'n bosibl o dan y gyfraith.

ENGIN/0119/5000



Mae'r llyfryn hwn wedi'i argraffu ar bapur a gafwyd o ffynonellau a reolir yn gynaliadwy, a defnyddiwyd inciau a gafwyd o lysiau. Mae'r papur a ddefnyddiwyd wrth gynhyrchu'r llyfryn hwn, a'r broses weithgynhyrchu, ill dau wedi'u hardystio gan yr FSC®.

Mae'r argraffwyr wedi'u hachredu hefyd hyd at safon ISO14001, y safon amgylcheddol a gydnabyddir yn rhyngwladol. Pan fyddwch wedi gorffen gyda'r llyfryn hwn, gellir ei ailgylchu, ond a wnewch chi ystyried ei roi i ffrind neu ei adael yn eich llyfrgell gyrfaoedd i eraill ei ddefnyddio. Diolch yn fawr.

Gellir trefnu i'r ddogfen hon fod ar gael mewn print mawr (testun), mewn Braille neu ar dâp sain/CD hefyd. I ofyn am gopi mewn fformat arall, cysylltwch â Laura Roberts:
Ffôn: 029 2087 4455
E-bost: RobertsL9@caerdydd.ac.uk

Mae Prifysgol Caerdydd yn elusen gofrestredig, rhif 1136855

Sut i ddod o hyd i'r Ysgol

Gallwch ddod o hyd i ni yn Adeiladau'r Frenhines ar Heol Casnewydd (y fynedfa drwy'r Parêd). Rydym wedi ein lleoli'n gyfleus ar bwys canol y ddinas, neuaddau preswyl y myfyrwyr, ac ar bwys holl brif adeiladau'r Brifysgol, gan gynnwys Undeb y Myfyrwyr.

Gweler ein gwefan hefyd yn: www.cardiff.ac.uk/cy/engineering a dewch o hyd i ni ar:

- [Facebook.com/cardiffschoolofengineering](https://www.facebook.com/cardiffschoolofengineering)
- [Twitter.com/engineeringCU](https://twitter.com/engineeringCU)
- [Youtube.com/user/cardiffengineering](https://www.youtube.com/user/cardiffengineering)

I gael gwybod rhagor am yr Ysgol Peirianeg, ewch i'n gwefan:
www.cardiff.ac.uk/cy/engineering

Myfyrwyr sy'n Blogio

O awgrymiadau astudio i ble i fwyta, i gymdeithasau, teithiau penwythnos a ble i gael eich llyfrau, mae ein myfyrwyr sy'n blogio yn fyfyrwyr go iawn sy'n siarad am brofiad gwirioneddol myfyriwr yng Nghaerdydd.

Cofiwch ddarllen eu blogiau diweddaraf i gael gwybod rhagor am sut beth yw byw ac astudio yng Nghaerdydd.

www.caerdydd.ac.uk/studentbloggers

Ymholiadau

Ffôn: 029 2087 9999
E-bost: engineering-ug@caerdydd.ac.uk

Yr Ysgol Peirianeg
Prifysgol Caerdydd
Adeiladau'r Frenhines
Y Parêd
Y Rhath
Caerdydd CF24 3AA

Cadw mewn cysylltiad



Dewch o hyd i ni:
facebook.com/cardiffuniversityschoolofengineering



Dilynwch ni:
[@EngineeringCU](https://twitter.com/EngineeringCU)



THE QUEEN'S
ANNIVERSARY PRIZES
FOR HIGHER AND FURTHER EDUCATION
2017